CAEL GWAITH, ADDYSG a CHYNGOR
mewn ardaloedd gwledig

GAINING WORK, LEARNING & ADVICE
in rural areas

GWLAD

YMATEB I ANGHENION DYSGU GWLEDIG YNG NGOGLEDD CYMRU

Adroddiad Interim
Prosiect GWLAD

Gorffennaf 2007

YR UNDEB EWROPEAIDD
EQUAL
EUROPEAN UNION
EQUAL
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNNWYS

1. Amlinelliad Cyffredinol o'r Prosiect 4

a) Cyflwyniad 4
b) Partneriaeth GWLAD 4
c) Nodau'r prosiect 5
ch) Ein dull o weithredu 7
d) Gweithredu egwyddorion EQUAL 7
dd) Y cefndir yng Ngogledd Cymru 8

2. Ymchwil a Gweithgareddau – Arloesi mewn Dysgu Gydol Oes 10

a) Ymchwilio i brofiad dysgwyr mewn ardaloedd gwledig a'r rhaglen INNOVATE 10
b) Dysgu Cyfunol 13
c) Rhaglen Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn ardal wledig 16

3. Ymchwil a Gweithgareddau – Grymuso Grwpiau sydd wedi eu Hallgau yn Gymdeithasol 18

a) Gwaith BEN (Rhwydwaith Amgylcheddol Pobl Dduon) gyda phartneriaethau dysgu anffurfiol 18
b) Gweithdai Hyfforddi Sgiliau i weithwyr mudol economaidd 20
c) Cwrs codi hyder ar gyfer SMUG (Grŵp Defnyddwyr Camddefnyddio Sylweddau) 22
ch) Dysgu Cymraeg mewn lleoliad cymunedol 24
d) Y Rhwydwaith Cymunedau sy'n Dysgu 28

4. Ymchwil a Gweithgareddau – O Ddysgu i Gyflogaeth 31

a) Ymchwilio i brofiad gwirfoddolwyr 31
b) Dysgu anffurfiol i wirfoddolwyr 34
c) Datblygu ymyriadau ysgogiadol cyfrifiadurol ar gyfer pobl cyflogedig a di-waith sy'n camddefnyddio sylweddau 37

5. Gweithgareddau Eraill 40

a) Cyrsiau i fewnfudwyr i ardaloedd Cymraeg 40
b) Defnyddio 'podlediadau' 41
c) Ymchwil i gau'r bwlch rhwng addysg alwedigaethol ac addysg uwch 42

6. Gwaith Trawswladol 48

7. Casgliadau ac Argymhellion Interim 50

1. AMLINELLIAD CYFFREDINOL O'R PROSIECT

a) CYFLWYNIAD

Mae'r prosiect GWLAD wedi cael ei gyllido gydag arian EQUAL 2 Cronfa Gymdeithasol Ewrop o hydref 2004 hyd at Ragfyr 2007. Bwriad yr adroddiad interim hwn (Gorffennaf 2007) yw rhoi crynodeb o'n nodau, ein prif weithgareddau hyd yma, a'n casgliadau cychwynnol a'n hargymhellion. Bydd yn cael ei ddilyn gan adroddiad terfynol mwy manwl a fydd yn cael ei gynhyrchu ar ddiwedd y prosiect ym mis Rhagfyr 2007. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod Cam 2 o'r prosiect a gynhaliwyd o haf 2005 hyd at ddiwedd 2007. Gan mai adroddiad interim yw hwn yr ydym yn ei ysgrifennu fel 'gwaith mewn llaw' gyda'r bwriad o roi blas ar weithgareddau a chanfyddiadau'r prosiect GWLAD ar adeg pan maent yn dal i ddigwydd ac esblygu. Ar ôl nodi'r cefndir mewn adran sy'n amlinellu ein nodau a'n dull o weithredu, mae'r rhan fwyaf o'r adroddiad hwn yn cynnwys disgrifiad o'n gweithgareddau wedi eu hysgrifennu gan bobl sydd â chysylltiad agos gyda'r gweithgareddau hynny. Byddant yn amlinellu'r hyn sydd wedi bod yn digwydd a rhai o'r gwersi a ddysgwyd.

b) PARTNERIAETH GWLAD

Mae'r prosiect GWLAD wedi bod yn cael ei redeg gan bartneriaeth ddatblygu sy'n gweithio o fewn meysydd thematig EQUAL ar 'ymaddasu a dysgu gydol oes'. Bu gwaith y bartneriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar hybu dysgu gydol oes, yn arbennig ar gyfer y bobl sy'n dioddef o gamwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn y farchnad lafur. Y mae'n partneriaeth yn cynnwys yr asiantaethau addysgol, statudol, cymunedol a gwirfoddol canlynol.

- Ysgol Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Cymru Bangor.
  Yr Ysgol Dysgu Gydol Oes yw'r partner arweiniol, ac mae ganddi brofiad o ehangu cyfranogiad ac o addysg oedolion ac addysg barhaus, trwy ogledd Cymru. Mae prosiect GWLAD wedi gallu manteisio ar brofiadau a chysylltiadau llawer o staff yr ysgol. Mae tri aelod o staff Prifysgol Cymru Bangor yn gweithio'n llawn amser ar y rhaglen GWLAD ac mae llawer o staff eraill yr ysgol wedi bod yn gweithio ar nifer o weithgareddau GWLAD
- CAIS yw prif ddarparwr gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Y mae wedi datblygu rhaglenni ar

gyfer pobl mewn gwaith a phobl ddi-waith er mwyn atal niwed cysylltiedig â chyffuriau, a helpu pobl i gael swyddi a chadw mewn cyflogaeth.

- Medrwn Môn yw'r corff trosfwaol yn Ynys Môn ac mae'n darparu gwybodaeth a chyngor ynglŷn â gwirfoddoli ac yn cynrychioli'r sector gwirfoddol.
- Mae BEN (Rhwydwaith Amgylcheddol Pobl Dduon) yn hybu cyfle cyfartal o safbwynt cymunedau ethnig o ran cynnal, gwarchod a datblygu'r amgylchedd.
- Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gorff statudol sydd yn bennaf yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
- Y Brifysgol Agored yw'r darparwr addysg uwch rhan amser mwyaf yn y Deyrnas Unedig a'r unig un sy'n ymrwymedig yn gyfan gwbl i ddysgu o bell.

Mae pob un o'r partneriaid uchod wedi bod yn ymwneud ag un neu fwy o'r gweithgareddau a ddisgrifir yng ngweddill yr adroddiad hwn. Mae partneriaid eraill GWLAD yn cynnwys Chwarae Teg, a Stonewall, sydd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i bolisi ac arferion cyfle cyfartal GWLAD. Mae'r RSIN (Rhwydwaith Gwybodaeth Gofid Cefn Gwlad) ac Alfred McAlpine Slate Ltd. hefyd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr yn nyddiau cynnar y prosiect.

c) NODAU'R PROSIECT

Prif nod y prosiect oedd darparu dysgu gydol oes a phrofiadau perthnasol i ennill cyflogaeth. O fewn y nod cyffredinol hwn yr oedd gennym ddiddordeb penodol yn y problemau a wynebir gan bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn arbennig pobl oedd wedi eu hallgau'n gymdeithasol. Yn fwy penodol yr oedd gennym bedwar prif amcan:

- **Datblygu dulliau arloesol o weithredu mewn perthynas â dysgu gydol oes**. Yn y maes hwn buom yn canolbwyntio ar ymchwilio i brofiadau pobl sy'n dysgu ar hyn o bryd mewn ardaloedd gwledig er mwyn canfod beth oedd yn gweithio a beth oedd ddim yn gweithio iddynt hwy. Hefyd rhoesom gynnig ar ddulliau newydd o weithio a allai, yn ein barn ni, fod yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig. Yr oeddem yn canolbwyntio'n arbennig ar dechnolegau newydd a buom yn arbrofi gyda dysgu cyfunol, defnyddio podlediadau, a defnyddio rhith amgylchedd dysgu mewn lleoliad cymunedol.

- **Grymuso grwpiau sydd wedi eu hallgáu yn gymdeithasol**. Yn y maes hwn o weithgareddau fe ddatblygwyd dysgu yn y gymuned, ffurfiol ac anffurfiol. Buom yn gweithio gydag ystod o grwpiau targed, gan gynnwys merched sydd wedi eu hynysu oherwydd diffyg cludiant ac oherwydd gofal plant, aelodau o grwpiau ethnig o gymunedau sefydlog yn ogystal â gweithwyr mudol mwy diweddar, pobl sy'n cael problemau oherwydd camddefnyddio sylweddau, dynion o gefndir amaethyddol sydd wedi wynebu llawer argyfwng diweddar yn eu diwydiant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd anhygyrch. Cawsom y grwpiau hyn i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau dysgu, gan gymryd eu harweiniad hwy yn gyffredinol ynglŷn â'r mathau o weithgareddau yr oeddent yn eu hystyried fwyaf priodol iddynt ar yr adeg benodol honno. Roedd cysylltiad eithaf agos rhwng rhai o'r gweithgareddau hyn a'u hanghenion cyflogaeth, ond roedd eraill yn canolbwyntio ar wella cydlyniad cymunedol ac/neu eu hyder a'u hunan barch fel unigolion.
- **O ddysgu i gyflogaeth**. Yn y maes hwn yr oeddem yn canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar weithgareddau oedd yn cysylltu dysgu gyda chyflogaeth. Edrychwyd yn benodol ar y cysylltiadau rhwng gwirfoddoli a chyflogaeth, gan wneud ymchwil i'r mater a darparu gweithgareddau dysgu i wirfoddolwyr. Buom yn edrych ar ffyrdd o helpu un o'n grwpiau targed – pobl oedd â phroblemau gyda chyffuriau ac alcohol – i gael gwaith neu i aros mewn swyddi, ac edrychwyd ar ffyrdd o wella rhagolygon pobl oedd eisoes mewn swyddi.
- Amcan arall oedd cadw'r egwyddor o **gyfle cyfartal** yn elfen hanfodol yn ein holl weithgareddau. I sicrhau hynny, rhoddwyd hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i'n boll bartneriaid yn fuan iawn yn y prosiect.

At ddibenion yr adroddiad hwn yr ydym wedi dosbarthu ein gweithgareddau o dan un yn unig o'n tri phrif amcan. Serch hynny, yn ymarferol gallai nifer o'n gweithgareddau ddod o dan ddau neu hyd yn oed dri o'r amcanion hyn. Er enghraifft y mae'r rhwydwaith cymunedau sy'n dysgu wedi rhoi grym i grwpiau sy'n cael eu hallgau yn gymdeithasol trwy weithio'n uniongyrchol gyda hwy i ddatblygu dysgu a fydd yn gwella eu rhagolygon o ran cyflogaeth.

ch) EIN DULL O WEITHREDU

Roedd ein prosiect yn cynnwys ymchwil yn ogystal â datblygu gweithgareddau. Ein dull o weithredu yn gyffredinol oedd gwneud yr ymchwil yn gyntaf ac wedyn datblygu gweithgareddau ar sail casgliadau'r ymchwil hwnnw. Ond yr oeddem hefyd yn datblygu gweithgareddau ar sail ymchwil a wnaethpwyd mewn prosiectau blaenorol, er enghraifft y prosiect SEQUAL a gwnaethpwyd yn yr Ysgol Dysgu Gydol Oes fel rhan o raglen EQUAL flaenorol. Yn gyffredinol, ein dull o weithredu oedd ymchwil gweithredu, sy'n golygu bod cysylltiad agos rhwng ein hymchwil a'n gweithgareddau. Am y rheswm hwnnw yr ydym wedi cyfuno disgrifiadau o'n hymchwil a'n gweithgareddau yn yr adrannau sy'n dilyn.

Yn unol ag egwyddor EQUAL o roddi grym i grwpiau ac unigolion, buom yn gweithio hyd y bo modd mewn dull o'r bôn i'r brig, trwy ddatblygu'r math o brofiadau dysgu mwyaf priodol ar eu cyfer. Roedd hyn yn nodwedd bwysig o'r prosiect ac yn ei wneud yn wahanol i ddulliau eraill o gyllido lle mae cyfyngiadau llawer mwy pendant, yn gyffredinol, ar fath a pharhad y gweithgareddau dysgu. Roedd hyn hefyd yn golygu bod rhai o'r gweithgareddau a ragwelwyd ar ddechrau'r prosiect heb ddwyn ffrwyth mewn gwirionedd, ond bod gweithgareddau eraill nad oeddem wedi eu disgwyl wedi cymryd eu lle. Mewn llawer o achosion roedd ein gwaith datblygu'n golygu manteisio ar gyfleoedd oedd yn codi. Yn adrannau nesaf yr adroddiad hwn mae manylion am sawl enghraifft o'r broses hon. Yn olaf buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth trwy gydol y prosiect. Yn ogystal â phartneriaeth ffurfiol GWLAD, bu llawer o asiantaethau eraill yn gyfrannog yn ein gweithgareddau. Roedd gan bob un o'r partneriaid rwydwaith eang o bartneriaid a chysylltiadau eraill yn barod, i weithio gyda hwynt. Yr oeddem yn gallu manteisio ar y rhain wrth i'r prosiect ddatblygu ac ar brydiau'n gallu defnyddio ein cysylltiadau'n gilydd. Roedd hyn yn un o agweddau mwyaf ffrwythlon a buddiol y prosiect, ac mae'n tanlinellu ein holl ffordd o weithredu.

d) EGWYDDORION EQUAL

Mae egwyddorion canlynol EQUAL yn waelodol i GWLAD:

ARLOESI – Mae prosiect GWLAD wedi caniatáu i ni arloesi yn ogystal ag ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol. Y mae'n gwaith gyda grwpiau ethnig yn un enghraifft o hyn. Pan ffurfiwyd y prosiect yn 2004 yr oeddem yn rhagweld y byddem yn gweithio gyda grwpiau ethnig sefydlog, megis y

gymuned Tsieineaidd, ond nid oeddem wedi rhagweld anghenion mewnfudwyr newydd o Ddwyrain Ewrop. Mae ystwythder cymharol yr arian EQUAL wedi ei gwneud yn bosibl i ni ddatblygu gweithgareddau gyda'r grwpiau hyn hefyd. Yr ydym hefyd wedi ymgorffori egwyddor EQUAL o arloesi yn y ffordd yr ydym yn gweithredu mewn perthynas â dysgu ac wedi arloesi mewn perthynas â dulliau dysgu a chynnwys y cyrsiau, er enghraifft yn y rhaglen ddysgu INNOVATE a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

GRYMUSO – Yr ydym wedi ceisio ymgorffori egwyddorion grymuso mewn nifer o agweddau ar ein ffordd o weithredu. Yn arbennig yr ydym wedi ceisio osgoi gorfodi'n barn ein hunain ynglŷn â beth yw dysgu priodol ar unigolion a grwpiau, gan ganiatáu iddynt benderfynu drostynt eu hunain pa fath o weithgareddau dysgu sy'n arbennig o briodol. Mae hyn yn bwysig iawn gan ei fod yn golygu y bydd y grwpiau eu hunain yn parhau i gynnal llawer o'r gweithgareddau pan fydd y prosiect ei hun wedi dod i ben.

CYFLE CYFARTAL – Yr ydym wedi cynnwys dimensiwn cyfle cyfartal mewn llawer o'n gweithgareddau, ac wedi ceisio sicrhau ein bod, yn arbennig, wedi canolbwyntio'n egnïon ar gynnig cyfleoedd i unigolion a grwpiau sy'n aml yn cael eu hallgau'n gymdeithasol.

GWEITHIO'N DRAWSWLADOL – Bu'r elfen drawswladol sydd yn ein prosiect yn fudd mawr i'n gwaith. Yr ydym wedi rhannu profiadau o arferion da gyda phrosiectau EQUAL eraill yn y Weriniaeth Tsiec, Ffrainc a Gwlad Belg, gan edrych yn benodol ar ffyrdd o gymell dysgwyr, dulliau o achredu dysgu drwy brofiadau ac ar fanteision ac anawsterau e-ddysgu. Y mae'n gwaith trawswladol hefyd wedi cynnwys cyfnewid staff gyda phrosiect a oedd yn gweithio mewn ardal wledig yn y Weriniaeth Tsiec oedd yn debyg, mewn sawl ffordd, i ogledd Cymru.

dd) Y CEFNDIR YNG NGOGLEDD CYMRU

Yng ngogledd orllewin y rhanbarth lle yr oeddem yn gwneud y rhan fwyaf o'n gwaith y mae lefelau uchel o amddifadedd a thlodi sy'n cael eu cuddio i raddau gan ddelwedd 'cerdyn post' yr ardal. Roedd y pedair sir yng ngogledd orllewin Cymru yn gymwys i dderbyn arian Amcan 1 hyd at 2006, a bydd yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn arian Cydgyfeirio o 2007 ymlaen. Mae sail economaidd y rhanbarth yn eithaf cul ac y mae wedi etifeddu traddodiad o ddirywiad diwydiannol a sector amaethyddol

sydd wedi dioddef llawer argyfwng dros y blynyddoedd diwethaf megis BSE a chlwy'r traed a'r genau. Mae'r lefelau cyflog ymhlith yr isaf yn y Deyrnas Unedig ac mae llawer o'r swyddi sydd ar gael yn rhai tymhorol sydd ar gyflog isel. Er nad yw'r lefelau diweithdra mor uchel ag y maent mewn rhannau eraill o Gymru, y mae pocedi o ddiweithdra a lefelau uchel o 'ddiweithdra cudd' mewn rhai rhannau. Mae natur wledig yr ardal yn golygu bod llawer o bobl yn cael anawsterau i gael mynediad i gyfleoedd dysgu a chyfleoedd cyflogaeth. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl sydd heb geir eu hunain gan fod trafnidiaeth gyhoeddus yn wael mewn rhannau o'r rhanbarth, os yw'n bodoli o gwbl. Mae diffyg gofal plant yn broblem hefyd mewn llawer rhan o'r rhanbarth, a diffyg gofalwyr plant sy'n siarad Cymraeg yn broblem arbennig.

Mae symudiadau yn y boblogaeth yn fater o bryder hefyd, nid yn unig pobl ifanc yn symud allan i chwilio am addysg a hyfforddiant, ond hefyd pobl, o grŵp oedran hŷn yn gyffredinol, yn symud i'r ardal i fyw. Hyd yn ddiweddar roedd y rhan fwyaf o'r bobl oedd yn symud i mewn i'r ardal yn dod o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond yn ystod y deunaw mis diwethaf bu nifer sylweddol o fewnfudwyr yn dod o Ddwyrain Ewrop i bob rhan o ranbarth gogledd Cymru.

Mae gan yr ardal hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol unigryw. Mae canrannau'r siaradwyr dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) yn amrywio o ychydig o dan 20% i dros 60% mewn gwahanol rannau o'r rhanbarth. Mae nifer cynyddol o swyddi, yn arbennig yn y sector cyhoeddus, yn mynnu bod y gallu i siarad Cymraeg naill ai yn sgil hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer cyflogaeth. Fe all hynny olygu ei bod yn anodd i bobl o weddill y Deyrnas Unedig a thu hwnt gael swyddi o'r math ac ar y lefel y byddent yn eu dymuno.

Mewn llawer o weithgareddau'r prosiect yr ydym wedi cymryd nodweddion arbennig gogledd Cymru i ystyriaeth, yn arbennig y natur wledig a'r iaith Gymraeg.

2. YMCHWIL A GWEITHGAREDDAU – ARLOESI MEWN DYSGU GYDOL OES

a) YMCHWILIO I BROFIAD DYSGWYR MEWN ARDALOEDD GWLEDIG A'R RHAGLEN 'INNOVATE'

Un o nodau GWLAD yw edrych ar ffyrdd arloesol o ddarparu addysg yn ardaloedd gwledig. Roedd rhan o'n gwaith yn golygu ymchwilio i brofiad myfyrwyr sydd eisoes yn dysgu mewn ardaloedd gwledig ynysig, sydd wedi ymuno â chyrsiau dysgu o bell. Yn aml ystyrir bod dysgu o bell yn ddull delfrydol ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig, a'r Brifysgol Agored yw'r arbenigwyr cydnabyddedig o ran darparu addysg uwch ar y lefel yma. Nod y pecyn gwaith hwn oedd archwilio profiadau myfyrwyr mewn ardaloedd gwledig sy'n dysgu o bell, ac ystyried ffyrdd o wella eu profiadau.

Gwnaethpwyd y gwaith hwn ar y cyd rhwng yr Ysgol Dysgu Gydol Oes a'r Brifysgol Agored a'i ffocws oedd archwilio profiadau myfyrwyr sydd wedi dilyn cyrsiau 'Agoriadau' y Brifysgol Agored. Ar ddechrau 2006 anfonwyd holiaduron at dros 100 o fyfyrwyr.

Cafwyd ateb i'r holiaduron gan 19 o fyfyrwyr Agoriadau. Cafwyd enwau a chyfeiriadau gan 17 ohonynt, a chysylltwyd gyda 15 ohonynt gyda'r nod o drefnu cyfweliadau. Cytunodd deg i gael eu cyfweld, pob un ohonynt yn ferched. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar y sampl bychan hwn sydd wedi cael eu cyfweld mewn peth dyfnder (yn ogystal ag un myfyriwr ar gwrs dysgu o bell Prifysgol Cymru Bangor ar Ysgrifennu gyda Bwriad). Hefyd cyfwelwyd pedwar o diwtoriaid.

Nid oes gan y myfyrwyr ar gyrsiau Agoriadau unrhyw gysylltiad â'i gilydd a chysylltir gyda'r tiwtor dros y ffôn yn unig. Dyma'r ddwy broblem fwyaf a gododd o'r cyfweliadau. Mae'n amlwg fod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda iawn i rai myfyrwyr, yn arbennig y rhai sy'n ystyried Agoriadau fel dull i gyrraedd nod. Er enghraifft roedd un ferch ifanc, oedd yn gweithio fel technegydd microbioleg, wedi cymryd y cwrs Agoriad i Fathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg fel ffordd o fynd yn ôl i'r arfer o feddwl yn academaidd (ar ôl toriad o wyth mlynedd ers ei lefel A) cyn dechrau cwrs gradd. Yr oedd yn gwybod yn union beth yr oedd hi eisiau ac yr oedd yn fodlon gyda'r cwrs a'r gefnogaeth a gafodd gyda'r tiwtor. Ei sylw oedd "ei fod yn gwneud beth roedd yn ei ddweud ar y tin."

Yn anochel efallai, nid oedd pobl a ddilynodd y cyrsiau Agoriadau er mwyn archwilio'r posibiliadau o ddechrau neu ddychwelyd i ddysgu, yr un mor fodlon bob amser. Roedd deg o'r myfyrwyr a lenwodd yr holiaduron yn teimlo yr hoffent fod wedi cyfarfod â myfyrwyr eraill ac/neu'r tiwtor. Roedd unigrwydd a theimlo'n ynysig yn ddau brif ystyriaeth a amlygwyd. "Hoffwn fod wedi cwrdd â myfyrwyr eraill; roeddwn i'n gweld eisiau'r gyfathrach gymdeithasol" a "Byddai'n well gen i weld fy nhiwtor yn uniongyrchol … a gweddill y dosbarth. A fyddai'n bosibl dynodi tiwtor a fyddai ar gael i fyfyriwr yn yr ardal lle mae'n byw?" – roedd y rhain yn sylwadau nodweddiadol. Roedd pawb ond un o'r bobl a gyfwelwyd yn teimlo yr un fath: "Rwy'n teimlo'n gryf y byddai wedi bod yn fantais i mi gyfarfod â myfyrwyr eraill, byddai wedi bod yn ysgogiad." Roedd yr eithriad yn eu plith yn hoffi bod yn anhysbys "does dim rhaid i neb wybod os na ellwch ddygymod â'r cwrs neu os ydych yn methu." Dywedodd y tiwtoriaid fod y myfyrwyr yn ddigon hapus gyda dysgu o bell ac o beidio cael eu cymharu gyda'u cymheiriaid.

Ymddangosodd thema arall yn ystod y cyfweliadau: yr oedd myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu "gollwng" unwaith bod y cwrs wedi dod i ben. Nid oedd unrhyw gyfeiriad at gefnogaeth ddilynol. Dywedodd un myfyriwr ei bod wedi cael ei haseiniad olaf yn ôl (ar ôl tri mis) gydag un gair yn unig arno. "Llwyddo". Nid oedd unrhyw adborth (fel a fu trwy gydol y cwrs). Roedd yn teimlo y byddai wedi teimlo'n wahanol pe bai wedi cael adborth. "Byddai wedi bod yn ffordd dda o ddwyn y berthynas i ben" meddai. Dywedodd nad oedd y Brifysgol Agored "yn ceisio eich symud chi ymlaen, does dim cynhaliaeth o ran y pethau y gallech eu gwneud nesaf … fe ellid cael sesiwn galw i mewn i bobl sydd wedi gorffen cwrs, er mwyn ystyried posibiliadau eraill. Does dim datblygu. Mae angen cynghorydd cwrs i fynd â phobl ymlaen i'r cam nesaf". Ymateb nodweddiadol arall oedd "Roeddwn yn gweld eisiau'r galwadau pan ddaethant i ben, a byddwn wedi hoffi gweld y mater yn cael ei ddilyn i fyny."

Mae'r sylwadau hyn yn awgrymu rhai o'r problemau sy'n codi i fyfyrwyr dysgu o bell pan ddônt i ben cwrs penodol. Mae'r rhai sydd yn astudio wyneb yn wyneb yn fwy tebygol o gadw cysylltiad anffurfiol gyda staff a myfyrwyr a bydd hynny'n eu helpu i bontio i'r cam nesaf o astudio. Er mwyn gwneud darpariaeth o'r fath ar gyfer myfyrwyr lleol y Brifysgol Agored, ac eraill oedd â diddordeb mewn astudiaethau ar lefel gradd, dyfeisiwyd rhaglen undydd newydd. Dyfeisiwyd y rhaglen INNOVATE gan

yr Ysgol Dysgu Gydol Oes gyda'r nod o ateb ofnau a phryderon pobl ynglŷn ag Addysg Uwch, mewn cefndir cysurus, anffurfiol a rhyngweithiol. Mae'r rhaglen yn cwmpasu'r egwyddorion canlynol:

A amgyffrediad, tegwch a sylw unigol
R rhyddid i chi ystyried heb bwysau, ymrwymiad, na phrint bach, yn bendant!
L lefel newydd o dechnoleg, ar-lein, wrth law, ar y cwrs
O os ydych am Agoriadau/Mynediad a Sesiynau Blasu – yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
E ehangder o gefnogaeth o werth – yn fugeiliol, yn academaidd, yn ariannol ac o ran gofal bugeiliol
S sesiynau cynghori, eich rhoi ar ben ffordd a sylw un-i-un
W wrth leddfu'ch ofnau ynglŷn â thechnoleg
CH chwilfrydig ac wedi cynhyrfu? A ninnau – ac mae'r cyfan yn eich disgwyl!

Cynlluniwyd sesiynau ym Mangor a Wrecsam ym mis Mawrth. Er dosbarthu posteri a thaflenni'n helaeth a hysbysebu mewn papurau newydd, bychan oedd y nifer a ddaeth i'r ddau weithdy. Nid oedd cymaint o wahoddiadau wedi cael eu dosbarth trwy'r Brifysgol Agored ag yr oeddem yn gobeithio amdanynt, ond roedd canlyniadau cadarnhaol i'r gwaith hwn.

- Mae'r rhaglen Innovate yn adnodd hyblyg y gellir ei ddefnyddio yn y dyfodol.
- Roedd y tiwtoriaid Prifysgol Agored a ddaeth i'r sesiynau yn cytuno y byddai'n fuddiol i'r ddau sefydliad weithio mewn cydweithrediad yn y dyfodol. Er enghraifft byddant yn gwahodd staff Prifysgol Cymru, Bangor i'w diwrnodau recriwtio. Cytunwyd y byddent yn gweithio gyda'i gilydd yn y dyfodol i ddarparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr, gyda'r naill ochr a'r llall yn cydnabod y broblem o ddarparu gormod neu rhy ychydig o wybodaeth, a phwysigrwydd cael canolfannau o wybodaeth gyfyng, gryno a perthnasol. Dysgwyd gwersi o ran mynd â'r rhaglen allan i'r gymuned. Cafodd hyn ei dreialu ym Mharc Caia yn Wrecsam yn ystod yr Wythnos Dysgu i Oedolion.

INNOVATE ym Mharc Caia

Roedd Partneriaeth Datblygu Parc Caia yn croesawu presenoldeb y prosiect yn ystod yr Wythnos Dysgu i Oedolion. Roedd hyn yn golygu

nad oedd yn bosibl cyflwyno'r rhaglen trwy unrhyw un o'r dulliau oedd wedi cael eu cynllunio, hynny yw, cymysgedd o rannu gwybodaeth, sesiynau rhyngweithiol, gweithdai a chefnogaeth technoleg gwybodaeth. Roedd taflenni ar gael ar faterion a gyflwynwyd trwy power point a galwodd nifer o bobl heibio i ofyn am gyngor. Roedd nifer eisiau mwy o wybodaeth, er enghraifft am ddiwrnodau agored y Brifysgol Agored. Cymerwyd eu henwau a'u cyfeiriadau ac anfonwyd yr wybodaeth ymlaen atynt.

Un o amcanion INNOVATE yw gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill. Er nad oedd cynrychiolwyr y Brifysgol Agored yn gallu bod yn bresennol ar y diwrnod, anfonwyd llenyddiaeth ganddynt a rhoddwyd atebion i ymholiadau a gododd y diwrnod hwnnw. Rhoddodd NEWI ei gefnogaeth i INNOVATE trwy ddod â stondin a llenyddiaeth eu hunain, gyda dau fyfyriwr graddedig wrth law i ateb cwestiynau.

Mehefin 2007: mae datblygu a chyflwyno INNOVATE yn dal i fod yn waith ar y gweill ac mae cynlluniau ar droed i ddefnyddio'r adnodd mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau hyd nes y daw prosiect GWLAD i ben. Erbyn hynny gobeithir y bydd y rhaglen yn adnodd gwerthfawr, profedig y gall yr Ysgol Dysgu Gydol Oes ei rhannu gydag asiantaethau eraill.

Y brif wers a ddysgwyd o'r profiad hwn oedd yr angen i weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol a chynnal gweithgareddau sy'n anelu at ddysgwyr newydd mewn lleoliadau hygyrch ac adnabyddus iddynt.

b) DYSGU CYFUNOL

Mae'r gweithgarwch hwn yn dod o dan nod GWLAD o ddatblygu dulliau arloesol o ddysgu, sy'n addas i'w defnyddio mewn ardaloedd gwledig gwasgaredig.

Mae dysgu cyfunol yn derm sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfuno mwy nag un o ddulliau dysgu. Mae technoleg newydd yn cynnig amrywiaeth o ddulliau dysgu sy'n aml yn cael eu cynnig ochr yn ochr â'r dull traddodiadol wyneb yn wyneb o ddarparu. Gall myfyrwyr ymuno ag e-rwydweithiau i greu cysylltiadau gyda myfyrwyr eraill yn ogystal â gyda'r tiwtor. Mae Heinze and Procter (2004)[1] yn diffinio'r dull fel a ganlyn:

> "Blended Learning is learning that is facilitated by the effective combination of different modes of delivery, models of teaching and

styles of learning, and founded on transparent communication amongst all parties involved with a course."

Maent yn darlunio eu "cysyniad o ddysgu cyfunol" yn y llun isod sy'n cynnwys enghraifft o gyfuniad o ryngwynebau a all orgyffwrdd mewn dysgu cyfunol.



Conception of Blended Learning – adapted from Heinze and Procter (2004)

Mae llawer iawn o dystiolaeth bod e-ddysgu yn ehangu'n helaeth ochr yn ochr â dulliau mwy traddodiadol o ddysgu. Mae e-ddysgu yn uchel ar agenda'r llywodraeth. "Mae dyfodol addysg uwch" (Papur Gwyn 2003) yn cynnwys cynlluniau i "wreiddio e-ddysgu mewn modd llawn a chynaliadwy o fewn y 10 mlynedd nesaf." Yn y Deyrnas Unedig mae gan 57% o aelwydydd fynediad i'r rhyngrwyd (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2006).

Mae manteision ac anfanteision e-ddysgu a dysgu traddodiadol wyneb yn wyneb yn ddigon hysbys (Heinze and Procter 2004). Mae dysgu wyneb yn wyneb yn gweithio'n dda pan fo'r darlithydd yn hyblyg, yn brofiadol ac yn gallu cyfathrebu'n dda; mae manteision cymdeithasol i fyfyrwyr hefyd. Mantais e-ddysgu yw ei fod ar gael ar adegau sy'n gyfleus i'r myfyriwr ac mae'n ffordd effeithiol o gyfleu gwybodaeth ffeithiol. Ond gall dysgu cyfunol gynnig y gorau o'r ddau fyd, gyda myfyrwyr yn cael dewis cyfarfod â darlithwyr a chyd-fyfyrwyr neu ddilyn eu hastudiaethau trwy ddull electronig.

Dysgu cyfunol ym Mhrifysgol Cymru Bangor: y modiwl Globaleiddio

Mae globaleiddio yn fodiwl craidd ar gyfer dwy radd ran amser a gynigir gan y Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae hefyd yn fodiwl dewisol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau eraill. Roedd prosiect GWLAD yn galluogi

darlithwyr i ddatblygu adnoddau ar lein er mwyn paratoi deunydd manwl iawn ac er mwyn treialu dysgu cyfunol dewis rhydd gyda grŵp o fyfyrwyr aeddfed.

Roedd y myfyrwyr yn gyfarwydd â defnyddio Blackboard (rhith amgylchedd dysgu) fel offer dysgu ategol ac roeddynt yn gyfarwydd â'i ddefnyddio fel bwrdd trafod. Ond globaleiddio yw'r modiwl cyntaf lle gall myfyrwyr ddewis cyfrwng wyneb yn wyneb yn gyfan gwbl, neu ddysgu ar lein neu gyfuniad o'r ddau ddull.

Nododd y tiwtor fod GWLAD wedi darparu'r adnoddau ar gyfer peilot oedd wedi paratoi defnyddiau'n llawer mwy manwl a gyda llawer mwy o graffeg nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall. Bydd yn cael ei ddarparu yn Wrecsam y flwyddyn nesaf gyda rhai newidiadau a nodwyd yn y peilot. Y mae, yn ôl un o'r tiwtoriaid, "wedi darparu cyfle annisgwyl" i weithredu'r rhaglen dros gyfnod.

Ond y mae'n dal i deimlo ei fod yn bwysig cael elfennau sylweddol cyswllt wyneb yn wyneb, nid yn unig ar gyfer agweddau cymdeithasol o ran bod myfyrwyr yn gweld ei gilydd ac yn gweld y tiwtoriaid ond hefyd er mwyn creu trafodaeth ac egluro'r damcaniaethau.

Roedd y myfyrwyr hefyd yn cadarnhau hynny, yn arbennig rhai oedd â phrofiad blaenorol o ddysgu o bell.

Roedd J wedi dilyn cyrsiau dysgu o bell gyda'r Brifysgol Agored ac wedi teimlo'n "ynysig iawn". Y mae yn awr yn dysgu ar gyfer BA mewn llenyddiaeth ac yn teimlo "ei bod yn bwysig iawn cael mewnbwn pobl eraill ... pan ydych ar eich pen eich hun mae'n anodd gwybod a ydych yn mynd i'r cyfeiriad iawn … yr ydych yn cael eich cysuro gan fyfyrwyr eraill yn ogystal â gan y tiwtor." Siaradodd hefyd am y fantais o gwrdd â thiwtoriaid wyneb yn wyneb. Soniodd am un oedd yn "ei hysbrydoli" ac mae'n teimlo y byddai'r ynni a'r brwdfrydedd y gallai darlithydd ei greu yn mynd ar goll ar-lein.

Codwyd yr un pwynt gan un o'r tiwtoriaid. Soniodd am un modiwl ar-lein oedd wedi cael ei ddatblygu'n broffesiynol ac "y byddech yn credu ei fod wedi cael ei roi at ei gilydd gan rywun yn gwisgo siwt yn Harvard" er bod y tiwtor hwnnw mewn gwirionedd yn adnabyddus fel un cynhaliol, hygyrch a hawdd siarad ag ef. Y mae'r rhain yn nodweddion sy'n werthfawr iawn, yn arbennig efallai i fyfyrwyr hŷn ac i bobl sy'n bryderus

ynglŷn â mynediad i addysg uwch. Nid yw'n bosibl gwneud cyfraniadau o'r math yma ar-lein.

Siaradodd myfyriwr arall ynglŷn â'i hwyrfrydedd i gyfathrebu gyda myfyrwyr eraill ar lein: roedd yn teimlo ei fod yn "berthynas afreal ... fe allech wybod am rywun oedd yn wynebu anawsterau o ryw fath, ond gan nad ydych yn eu hadnabod, ni allwch ddweud dim." Yr oedd cynt wedi dilyn cwrs Prifysgol Agored oedd yn cynnwys tiwtorialau dros y ffôn. Roedd y rhain yn well, meddai hi, na chael cyswllt ar lein yn unig, roedd yn teimlo bod hynny yn "creu gormod o bellter, nid oedd dim cyfle i gymryd atoch, dim osgo lleisiol i ymateb iddo."

Mae dysgu cyfunol, fel a dreialwyd gan GWLAD, yn cynnig atebion o safbwynt dewis a mynediad. Hyd yn hyn nid oes yr un o'r myfyrwyr wedi dilyn y cwrs yn gyfangwbl ar-lein, ond erbyn diwedd y prosiect gobeithir y bydd cyfleoedd i gyfweld rhai myfyrwyr sydd wedi gwneud hynny.

c) RHAGLEN TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU MEWN ARDAL WLEDIG

Ar ddiwedd 2005 daeth prosiect GWLAD i sylw Sylfaen Cymunedol, a gysylltodd â ni i weld a allem gynnig unrhyw gymorth i grŵp o ferched yr oeddent yn gweithio gyda hwy mewn pentref yng Ngwynedd. Roedd y merched eisoes wedi gweld fod cornel posibl o'r farchnad iddynt yn y farchnad gyflogaeth neu hunan gyflogaeth fel hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored. (Y Pwynt Gwerthu Unigryw oedd ganddynt oedd eu bod yn ferched, yn lleol ac yn siaradwyr Cymraeg). Pan wnaethom ni gyfarfod â hwy yr oedd ansicrwydd pa ffrydiau o arian fyddai ar gael iddynt er mwyn eu hyfforddi i fod yn hyfforddwyr, ond roedd pawb yn cytuno y byddai'n werth ennill sgiliau TGCh mewn unrhyw faes o hyfforddiant neu o waith yn y dyfodol.

I ddechrau cynhaliwyd sesiwn rhagflas er mwyn sicrhau mai hynny oedd ei angen ac er mwyn asesu lefel priodol y cwrs. Yn dilyn hyn cofrestrwyd y merched ar gwrs 'Sgiliau Technoleg Gwybodaeth yn y Gweithle', er ein bod wedi rhagweld y byddai angen cwrs ar lefel uwch, fel y byddai'n bosibl ennill rhyw gymhwyster ar ôl 20 awr, pe bai cyfranogwyr yn gorfod gadael y cwrs cyn ei orffen, er na wnaeth neb ei adael mewn gwirionedd. Dilynwyd y cwrs am 20 wythnos gan bob un o'r merched gan ennill Tystysgrif Addysg Uwch mewn Sgiliau Technoleg Gwybodaeth Gyfoes.
Mae'r cwrs wedi cael ei drefnu'n wahanol i gwrs allgymorth safonol,

oherwydd bod rhai materion ychwanegol wedi cael eu hymgorffori yn y cwrs, hynny yw,

- yn arferol ni fyddai cwrs gyda chwe myfyriwr yn unig yn gallu rhedeg;
- roedd y myfyrwyr wedi cael mynediad i fewnrwyd a 'blackboard' y brifysgol, fel eu bod yn gallu cyfathrebu yn union fel myfyrwyr llawn amser; nid yw'r adnoddau hyn ar gael yn arferol i fyfyrwyr sydd ar gyrsiau allgymorth rhan amser;
- roedd cyswllt gydag asiantaethau allanol oedd yn cyfeirio'r myfyrwyr at ffynonellau gwybodaeth eraill, canllawiau neu gyngor, er enghraifft Gyrfa Cymru: gwnaethpwyd apwyntiad i bob myfyriwr gael naill ai profion seicometreg, sgiliau cyfweld neu ysgrifennu ci. Oherwydd y cysylltiad gyda Gyrfa Cymru ymunodd un myfyriwr â'u cynllun 'Stepping Stones' sy'n talu am ofal plant os ydych yn dilyn cyrsiau Addysg Bellach;
- darparu siaradwr i gymell myfyrwyr a'u cael i drafod eu llwybrau posibl ar gyfer cyflogaeth awyr agored (gan gynnig 2 le am ddim ar gwrs mordwyo penwythnos yn Eryri).

Yn dilyn y gweithgareddau hyn, roedd y grŵp yn bwriadu dysgu ar gyfer y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd ac wedi mynychu sesiynau i baratoi ar gyfer hynny. Ond gan fod y grŵp yn awr wedi cael cyllid ar gyfer hyfforddiant awyr agored, mae gan y merched llai o amser i'w roi ar gyfer paratoi ar gyfer Y Drwydded Yrru, ac mae'r sesiynau ar gyfer misoedd yr haf wedi cael eu hatal dros dro. Gobeithir y byddant yn ailgychwyn yn yr hydref.

Ers dilyn y cyrsiau, mae un o'r chwech wedi cael ei chyflogi'n rhan amser yn y sector gwirfoddol, un arall wedi penderfynu dilyn cwrs addysg bellach llawn amser; ac mae'r pedair arall yn dilyn hyfforddiant gweithgareddau awyr agored, gydag un o'r rheini yn gweithredu fel gweinyddwr i'r grŵp.

[1]Heinze, A., and Procter, C., (2004) *Reflections on the use of Blended Learning*, Education in a Changing Environment Conference Proceedings, University of Salford.

3. YMCHWIL A GWEITHGAREDDAU – GRYMUSO GRWPIAU SYDD WEDI EU HALLGAU'N GYMDEITHASOL

a) GWAITH BEN GYDA PHARTNERIAETHAU DYSGU ANFFURFIOL

Mae gwaith BEN wedi ei gysylltu'n bennaf gyda nod GWLAD o rymuso grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol fel y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu. Cymunedau ethnig yw'r grŵp a dargedir yn benodol ganddynt.

Mae BEN yn ceisio galluogi cymunedau ethnig gymryd rhan lawn yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae BEN yn cymryd y safbwynt nad oes y fath beth â phrosiect amgylchedd neu dreftadaeth pur. Mae prosiect amgylchedd neu dreftadaeth pur yn un sydd wedi esgeuluso'r cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Trwy ei waith mae BEN wedi canfod mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gael canlyniadau yw trwy greu partneriaethau dysgu anffurfiol wedi eu teilwrio'n arbennig ar gyfer y cleient. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gwahanol briodoleddau ac anghenion gwahanol gymunedau ethnig, ac mae'n sicrhau bod potensial y gwahanol ddarparwyr yn cael ei ryddhau'n llawn. Mae gweithredu mewn partneriaeth i ddod ag aelodau o gymunedau a chyrff ethnig ynghyd o'r sectorau amgylchedd a threftadaeth, yn creu tir cyffredin sy'n help i ddysgu.

Project BEN GWLAD yng Ngogledd Cymru

Amcanion: gwella a datblygu sgiliau trwy archwilio cwestiynau o fynediad i hyfforddiant/a chyfleoedd dysgu o safbwynt lleiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd gwledig sy'n profi lefelau lluosog o amddifadedd.

Byddwn yn gwneud hyn yng nghyd-destun yr hyn sydd gan y sectorau amgylchedd naturiol, gweithgareddau awyr agored ac amgylchedd hanesyddol i'w gynnig, a byddwn yn rhoi sylw i fynediad trwy drafod gyda'r darparwyr a'r cymunedau lleiafrifol ethnig o fewn eu dalgylch.

Cysylltu:

- Cymunedau ethnig
- Cyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol trwy'r gweithgareddau cadarnhaol sydd yn y sectorau amgylchedd naturiol, gweithgarwch awyr agored ac amgylchedd hanesyddol
- Dysgu anffurfiol yn y sector addysg i oedolion
- Addysg dysgu ffurfiol bellach

Bu BEN yn gweithio am flynyddoedd lawer mewn ardaloedd dinesig, yn delio gyda chrynodiadau o leiafrifoedd ethnig mewn dinasoedd mewnol. Yr hyn sy'n gwneud prosiect BEN GWLAD yn wahanol yw ei fod wedi digwydd mewn lleoliad lled wledig. Y mae'n waith arloesol sy'n anelu at gael poblogaeth eithaf tenau i gymryd rhan, gyda theuluoedd ac unigolion ar wasgar dros ardal ddaearyddol eang iawn.

Y mae pedwar cam ym methodoleg BEN:

1. Canfod beth yw anghenion ac agenda'r cyfranogwyr
2. Creu cyfleoedd i bobl gyfarfod (a chreu cyfleoedd i bobl ddarganfod) a dod o hyd i agendâu cyffredin
3. Datblygu'r gallu i ymgysylltu â'i gilydd
4. Dilyn materion i fyny

Dros gyfnod y prosiect mae BEN wedi cefnogi datblygu'r partneriaethau dysgu anffurfiol canlynol gan ddefnyddio'r fethodoleg hon:

Menter 1. **Cefnogi Cymdeithas Merched Tsieineaidd Gogledd Cymru i ddelio ag anghenion iechyd pobl dros hanner cant** trwy greu cyswllt rhyngddynt â'r hyn sydd gan wasanaethau iechyd, amgylcheddol a threftadaeth, a'r awdurdod lleol i'w gynnig.

Menter 2. **Cefnogi Grŵp Ffocws Cydraddoldeb Hiliol Cyngor Cefn Gwlad Cymru** er mwyn ffurfio eu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Menter 3. **Creu cysylltiad rhwng grwpiau cymunedau ethnig ag ystod o wahanol gyrff amgylchedd a threftadaeth** yn y cyd-destun o greu mynediad i weithgareddau a gwybodaeth, trwy rwydweithio a rhannu digwyddiadau.

O'r mentrau hyn mae BEN wedi cynhyrchu dau gyhoeddiad, a lansiwyd ym mis Mehefin 2007.

Mae'r cyntaf yn anelu at bersonél yn y sectorau amgylchedd a threftadaeth:

Partneriaethau Dysgu Anffurfiol ar gyfer cydgysylltu â chymunedau ethnig: *Canllawiau i'r sectorau Amgylchedd a Threftadaeth*

Mae'r ail yn anelu at gymunedau ethnig, ac yn tanlinellu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth.

Caru Cefn Gwlad Gweithio dros Gefn Gwlad: *Cyfleoedd gwaith i'w hystyried yn y sectorau Amgylchedd a Threftadaeth*

Bydd buddiannau'r prosiect yn deillio o'r cyhoeddiadau hyn a fydd yn cael eu rhannu ymhlith cymunedau ethnig a phobl sy'n gweithio yn y sectorau amgylcheddol a threftadaeth. Mae buddion eraill yn codi o'r partneriaethau dysgu sydd wedi cael eu ffurfio a'r gweithgareddau dysgu anffurfiol sydd wedi digwydd.

b) GWEITHDAI HYFFORDDI SGILIAU I WEITHWYR MUDOL ECONOMAIDD

Mae'r gweithgarwch hwn yn dod o dan nod GWLAD o rymuso pobl o grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol. Y mae hefyd yn cysylltu gyda nod GWLAD o ddatblygu dulliau arloesol o ddysgu.

Mae ymchwil a wnaethpwyd gan y Fenter Gweithwyr Mudol Economaidd yn dangos bod angen eang am hyfforddiant sgiliau a chefnogaeth alwedigaethol i leiafrifoedd ethnig sy'n gweithio yng nghefn gwlad gogledd Cymru. Gwelwyd bod angen gweithredu mewn ffordd integredig er mwyn gwella cydbwysedd bywyd a gwaith. Mae gweithdai a gyllidir gan GWLAD yn anelu at roi hyfforddiant i weithwyr mudol.

Mae'r hyfforddiant yn cael ei roi gan aelod o staff Prifysgol Cymru Bangor sydd ei hun wedi mudo o Ewrop. Mae'n disgrifio dibenion yr hyfforddiant fel:

"dysgu pynciau cysylltiedig â bywyd neu waith trwy gyfrwng Saesneg fel hyfforddiant Saesneg sylfaenol. Nid yw'r hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu yn y ffordd yma o'r blaen ac mae'r grŵp yn gorfod dylunio, datblygu a threialu'r deunydd hyfforddi. Gan fod yr hyfforddiant a'r patrwm hyfforddi yn gwbl arloesol, bydd angen ei adolygu'n barhaus er mwyn datblygu modiwl hyfforddi cymeradwy a chydnabyddedig."

Mae'r dilynol yn ddyfyniad o adroddiad y cynullydd:

Amlinelliad o'r Seminar:
Y mae'n seminarau yn gyfarfodydd un dydd gydag un sesiwn, a neilltuir ar gyfer pwnc penodol. Ein hamcan dysgu yw darparu fforwm drafodaeth agored i archwilio'r pwnc dan sylw o dan oruchwyliaeth broffesiynol. Y mae'n dulliau'n rhyngweithiol ac rydym yn anelu at ddarparu amgylchedd dysgu agored a chyfeillgar.

Nod Cyffredinol:
Y mae'n seminarau Saesneg Sylfaenol yn anelu at gefnogi pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i ddatblygu eu sgiliau Saesneg a chael gwybodaeth gysylltiedig â gwaith ar yr un pryd. Mae'r seminarau wedi cael eu dylunio o'r newydd ac mae ganddynt agwedd arloesol at ddysgu ac amrywiaeth.

Nod Arbennig:
Nod y seminar yw cefnogi cyflogwyr a chyflogeion i wella eu gwybodaeth sylfaenol am ofynion Iechyd a Diogelwch yn gyffredinol a gwella gwybodaeth ar gyfer y sector priodol:

Amlinelliad o Amcanion y Seminar:
- *Diffinio a manylu ar y pwnc*
- *Darparu fforwm o drafodaeth agored i gefnogi datblygiadau grŵp*
- *Cefnogi strategaethau i oresgyn diffyg gwybodaeth fewnol*
- *Datblygu amlinelliad pobl-ganolog*
- *Gweithio o fewn fframwaith rhyngweithiol*

Dull: *Rhyngweithiol, cyfranogol*

Crynodeb Interim:
Dioddefodd y prosiect oherwydd newidiadau niferus yn y cydweithwyr. Yr oedd y rhaglen i fod i ddechrau ym mis Rhagfyr gyda'r treialon cyntaf. Ar ôl dwy seminar (yn Wrecsam a Bangor), newidiwyd yr amserlen gan fod y grŵp cleient yn gweithio gan amlaf, a bod yn well ganddynt sesiynau gyda'r nos.

Mae'n werth nodi bod 75% o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod heb gael Cyflwyniadau i Iechyd a Diogelwch na hyfforddiant perthnasol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, er enghraifft bwyd a hylendid.

Mae'r cyfranogwyr yn gofyn am hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau felly byddwn yn newid blaenoriaethau'r cyrsiau hefyd.

Ond nodwyd ar nifer o adegau bod y cleientiaid yn fodlon dilyn cwrs yn Saesneg a oedd yn anelu at wella eu gallu ieithyddol gyda chefnogaeth profiadau dysgu rhyngweithiol.

Nododd y cleientiaid mai dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu gweld fel pobl oedd â grym ohonynt eu hunain ac roedd eu hyfforddiant wedi gwella eu hyder mewn cyfathrebu Saesneg. Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr mae'r anfantais fwyaf oedd nad oedd modd iddynt integreiddio trwy ddosbarthiadau arferol a'u bod yn teimlo wedi eu hynysu yn eu cymunedau.

Nodwyd hefyd ar nifer o achlysuron bod yr wybodaeth a roddwyd yn berthnasol i'w sefyllfa mewn bywyd. Llwyddodd y tîm i gyfeirio nifer o gleientiaid at gyrff eraill neu i gael cefnogaeth i chwilio am waith ac i gael cyngor busnes wedi'i deilwrio yn arbennig at eu hanghenion tu allan i'r seminarau.

Gweithgareddau eraill yn deillio o gydweithrediad GWLAD:
Gogledd ddwyrain Cymru:
Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf (Parc Caia, Wrecsam) i ganfod pa gymorth sydd ei angen (yn gysylltiedig â gwaith neu fusnes) gan y gymuned Bwylaidd Wrecsam.

Gogledd orllewin Cymru:
Mae'r gweithwyr allweddol yng ngogledd orllewin Cymru yn darparu gwahanol seminarau ar gyfer gweithwyr mudol. Mae'r seminarau yn anelu at gefnogi sgiliau cyfathrebu Saesneg a gwella sgiliau galwedigaethol generig ar gyfer gweithwyr mudol economaidd. Yn ardal Bangor mae prosiect peilot sy'n cefnogi merched o gefndiroedd ethnig i wella eu cyfle yn y farchnad lafur, trwy wella eu Saesneg galwedigaethol, technoleg gwybodaeth, sgiliau swyddfa a hawliau dinasyddion.

c) CWRS GWELLA HYDER AR GYFER Y GRŴP DEFNYDDWYR CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU (SMUG)

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud â nod GWLAD o rymuso pobl o grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol. Mae'r ffaith bod y cyswllt cyntaf gyda'r grŵp camddefnyddwyr sylweddau wedi dod trwy Medrwn Môn yn dangos gwerth gweithio mewn partneriaeth.

Cyfarfu ymchwilydd GWLAD a chydgysylltydd gwirfoddolwyr Medrwn Môn gyda gwirfoddolwr o'r Grŵp Defnyddwyr Camddefnyddio Sylweddau (SMUG) ym mis Mehefin 2006. Mae'r grŵp yn cael ei gyllido gan Uned Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a datblygodd o uned o'r enw Addysg Cyffuriau Dewis Deallus. Trefnodd y gwirfoddolwr (sy'n gydgysylltydd i'r grŵp erbyn hyn) gyfarfod gyda grŵp o ddefnyddwyr a chyn defnyddwyr. Rhestrwyd ganddynt ystod o gyrsiau hyfforddi a fyddai'n eu helpu i redeg eu grŵp yn fwy effeithiol (er enghraifft iechyd a diogelwch, diogelu data, sgiliau swyddfa, cymorth cyntaf), ond pwysleisiodd y cydgysylltydd mae'r broblem fwyaf yn y grŵp hwn oedd hunan hyder isel a bod cwrs adeiladu hyder yn flaenoriaeth. Teimlai y

byddai'r cyfranogwyr yn cael y grym i wella eu profiadau dysgu ar y cyrsiau eraill pe bai'r cwestiwn o hunan barch isel yn cael sylw.

Cynhaliwyd deg gweithdy a gynullwyd gan aelod o staff Prifysgol Cymru Bangor sydd â phrofiad sylweddol o weithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn ei chael yn anodd bod yn bresennol oherwydd bod ymddangosiadau llys, cael eu symud i lety tu allan i'r ardal, neu fynychu sesiynau dadwenwyno, er enghraifft, yn eu rhwystro rhag mynychu. Nid oedd y cydgysylltydd yn gallu parhau gyda'i waith gwirfoddol a hyd nes gellid dod o hyd i gydgysylltydd newydd (ac ymroddedig iawn), roedd y grŵp yn dechrau mynd ar chwâl. Ond er gwaethaf yr anawsterau hyn, dywedodd y cydgysylltydd newydd ar y pryd:

"pe bai'r cwrs yn cael ei asesu ar sail effaith seicolegol (hynny yw cynnydd mewn cymhelliad, hyder a hunan barch), yna byddai pob gwers yn cael ei hystyried yn llwyddiant mawr. Mae'r effaith a gafodd B (cynullydd y cwrs) ar bawb oedd yn bresennol, gan gynnwys fi fy hun, yn anhygoel ... Mae ei gyflwyniad a'i ddylanwad yn sicr wedi cymell y digartref a'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau i ystyried agweddau eraill ar eu bywydau. Mae SMAT (Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, sydd wedi ei leoli yn yr awdurdod lleol) yn dangos diddordeb ac mae uwch swyddog prawf wedi gofyn i rywun edrych ar y prosiect ..."

Mae ymrwymiad GWLAD i arloesi a grymuso yn golygu y gellid ailddechrau'r prosiect ym mis Ebrill 2007. Mae'r cydgysylltydd wedi gweithio'n hynod galed, gan gydgysylltu gyda'r Gwasanaeth Prawf, y Goleudy (sy'n cael ei redeg gan Digartref Ynys Môn) a MIND. Y mae wedi adeiladu ar y cysylltiadau hyn er mwyn datblygu eu cyfranogiad yn y prosiect er mwyn creu ymdeimlad o ymrwymiad a fydd, y mae'n gobeithio, yn gwneud y prosiect yn gynaliadwy.

Y mae naw o fuddiolwyr wedi ymuno yn y sesiynau newydd ac mae pawb yn mynychu'n rheolaidd. Mae'r cydgysylltydd yn teimlo bod hyn oherwydd y gwaith paratoi manwl y mae wedi ei wneud gyda phob un ohonynt. Dywedodd wrth bob aelod y byddai'n gallu eu helpu hwy i ddal i fyny pe baent yn colli sesiwn, gan bwysleisio mor bwysig oedd cwblhau pob sesiwn am fod pob sesiwn yn sail i'r un nesaf. Mae gan bob aelod ffolder gyda thaflenni gwaith sy'n dilyn bob wythnos. Mae rhai wedi dewis llenwi'r taflenni gwaith gyda'r nod o gael eu hachredu (OCN lefel 1)

ond mae'n well gan eraill gymryd rhan yn llafar yn hytrach nag mewn ysgrifen. Mae'r pwyslais ar greu awyrgylch o gefnogaeth i'w gilydd, lle mae'r buddiolwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu cael y gorau allan o'r sesiynau.

Y mae'r cydgysylltydd yn frwdfrydig:

> "Y mae'n gwrs da iawn. Y mae'n rhoi strwythur yn wythnos y grŵp. Y mae wedi creu amgylchedd diogel ac iach sy'n ddieithr i'r rhan fwyaf ohonynt. Rwy'n gobeithio y bydd yn eu cymell i newid trwy herio eu hymdeimlad o fod yn ddiwerth. Heb hunan-barch nid oes unrhyw welliant. Yr unig rwystr i'r cwrs yw eu ffordd afreolus o fyw … … nid oes unrhyw ddiffyg brwdfrydedd."

Mae'r cydgysylltydd a chadeirydd newydd y grŵp yn cael eu hyfforddi gan y cynullydd ar hyn o bryd, sy'n dweud bod gan y ddau duedd naturiol tuag at waith o'r natur yma. Y nod yw eu cymhwyso i redeg y cyrsiau achrededig hyn eu hunain yn y dyfodol. Mae nifer o grwpiau SMUG ar draws gogledd Cymru ac mae'r cydgysylltydd a'r cadeirydd yn bwriadu gweithredu cyrsiau o'r fath dros amser trwy'r ardal i gyd. Maent yn gobeithio y bydd eraill yn gallu ymgymryd â'r hyfforddi ac y bydd hyn, fel caseg eira, yn golygu y bydd y cwrs ar gael i nifer cynyddol o ddefnyddwyr a chynddefnyddwyr. Y cynllun ar ddechrau'r prosiect oedd creu pecyn gweithredu ar gyfer grwpiau eraill. Fel y dywedwyd uchod mae'n annhebygol y bydd hynny'n digwydd o dan GWLAD. Mae'r ffaith y bu'r peilot yma yn llwyddiannus iawn o ran budd i'r aelodau yn ganlyniad gwerthfawr ac mae'r ffaith bod dau o'r aelodau wedi dysgu sgiliau a fydd yn sicrhau y bydd y prosiect yn gynaliadwy ar ôl i brosiect GWLAD ddirwyn i ben yn tystio o blaid ethos GWLAD o weithio mewn ffordd ymatebol ac arloesol.

ch) DYSGU CYMRAEG MEWN LLEOLIAD CYMUNEDOL

Mae'r gweithgarwch hwn yn berthnasol i nod GWLAD o ddysgu mewn cyflogaeth ac o rymuso grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol. Yn ardaloedd gwledig gogledd Cymru, mae llawer o'r swyddi sydd ar gael yn mynnu sgiliau yn yr iaith Gymraeg.

Cafodd yr ymchwilydd GWLAD fynediad i'r grŵp trwy weithiwr datblygu Barnardos sy'n rhedeg grŵp plant a rhieni yng nghanolfan cymunedol pentref bychan yng ngogledd orllewin Ynys Môn. Teimlai fod nifer

sylweddol o'r rhieni yn cael eu hynysu'n ddaearyddol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol: "Mae llawer o bobl yn symud i'r rhan yma o'r byd heb wybod dim am Gymru. Maent yn synnu clywed cymaint o bobl yn siarad Cymraeg ac mae rhai yn dod yma heb wybod y bydd eu plant yn dysgu Cymraeg yn yr ysgolion." Mynychodd yr ymchwilydd rai o sesiynau'r grŵp, oedd yn cynnwys mewnfudwyr yn bennaf, er mwyn gweld beth oedd y grŵp yn ei deimlo oedd y rhwystrau i gael hyfforddiant neu swyddi.

Cytunai'r rhieni fod diffyg gofal plant fforddiadwy yn lleol yn ystyriaeth bwysig bob amser. Ond yr oeddent hefyd yn nodi'r broblem iaith ar unwaith ac roedd nifer yn dymuno dysgu Cymraeg. Roedd dwy wedi dechrau ar gyrsiau Cymraeg yn y gorffennol, ond nid oedd y lleoliadau a'r amseroedd wedi bod yn addas iddynt oherwydd eu cyfrifoldebau fel rhieni. Mewn un achos, daethpwyd â'r dosbarth i ben gan fod nifer y myfyrwyr wedi syrthio. Roedd y rhieni yn glir iawn ynglŷn â'u hanghenion, sef gwersi yn y ganolfan gymunedol, ac roeddent eisiau dod â'u plant gyda hwy.

Cytunodd cyfarwyddwr Cymraeg i Oedolion Prifysgol Cymru Bangor i dreialu sesiwn rhagflas deg wythnos lle gallai'r plant fod yn bresennol yn yr un neuadd â'u rhieni.

Dechreuodd y dosbarthiadau ym mis Ebrill 2007 gydag 13 o aelodau. Mae'r grŵp wedi ehangu ac y mae yn awr yn cynnwys nifer o wragedd lleol yn eu 50au a glywodd am y cwrs gan bobl eraill neu weld posteri yn y ganolfan iechyd lleol, y swyddfa post a'r eglwys. Gan amlaf mae tua dau neu dri o blant bach yn bresennol. (Ond ni chynigir gofal plant swyddogol: mae rheolau WEFO yn mynnu bob gofalwyr plant yn gorfod bod yn gofrestredig os ydynt yn cael eu talu ac nid oes gofal o'r fath ar gael yn y pentref gwledig hwn. Mae ymchwilydd GWLAD yno gan amlaf i dynnu sylw'r plant pan fydd y rhieni'n dysgu.)

Mae hon yn fenter lwyddiannus gyda grŵp brwdfrydig iawn. Un ffactor allweddol yw bod yr angen am wersi Cymraeg yn fater a godwyd ganddynt hwy eu hunain. Mae'r ffaith fod ymdeimlad o berchenogaeth ymhlith y grŵp ei hun yn cyfrannu'n sylweddol at ddichonoldeb prosiect. Mae tystiolaeth bendant bod ymdeimlad o'r fath yn cyfrannu'n sylweddol. Mae llawer o ddysgwyr wedi symud i'r ardal yn ystod y misoedd diwethaf ac eraill wedi byw yma'n hirach ac yn gwybod

rhywbeth am yr iaith. Mae o leiaf bedwar eisiau dysgu'r iaith er mwyn gwella eu rhagolygon o gael swydd (roedd un yn arfer gweithio mewn Canolfan Waith yng Ngwlad yr Haf, mae un arall yn gweithio mewn canolfan iechyd lleol ac un yn gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol yn Llangefni). Mae dau o'r grŵp yn rheolwyr trenau ac ni allant fod yn bresennol ym mhob sesiwn. Mae un yn defnyddio'r gwersi fel rhan o broses therapi galwedigaethol y mae wedi ei ddylunio ar ei gyfer ei hun, gan gredu y bydd dysgu Cymraeg yn ymestyn ei ragolygon am swyddi ac yn gwella'r gwaith gwirfoddol a wneir ganddo. Mae'r tiwtor yn barod iawn i ymaddasu ac i ymateb i awgrymiadau. Y mae'n cyfuno dysgu'r aelodau sy'n bresennol ym mhob sesiwn gydag anghenion yr aelodau sydd wedi colli rhai gwersi. Mae'r awyrgylch yn anffurfiol, yn rhyngweithiol ac yn gyfforddus.

Mae J yn fam i ddau o blant oed ysgol gynradd ac un baban (sy'n mynychu'r dosbarth Cymraeg gyda'i rieni). Mae gŵr J, yn ei 40au cynnar, yn ŵr lleol ond "heb drafferthu i ddysgu Cymraeg pan oedd yn yr ysgol." Roedd yn byw yn Lloegr nes iddo ef a'i wraig Saesneg symud yn ôl i'r ardal yn 2006. Mae J. yn teimlo ei bod yn bwysig iddi ddysgu Cymraeg fel y gall fynd yn ôl i weithio ac fel y gall helpu eu meibion sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol. "Maent yn gofyn cwestiynau i mi ac rwy'n gorfod dweud nad wyf yn gwybod yr atebion. Rwyf eisiau dangos iddynt ei bod yn werth gwneud yr ymdrech i ddysgu ac os byddant yn gweld ein bod ninnau'n dysgu byddant yn sylweddoli ei bod yn bwysig." Roedd yn un o'r bobl a welodd yr angen am ddarpariaeth dysgu Cymraeg yn lleol ac a gododd y mater gyda'r ymchwilydd GWLAD ac nid yw wedi colli sesiwn eto.

Mae un buddiolwr, yn wraig yn ei 50au a symudodd i'r ardal chwe mis yn ôl. Dywedodd ei bod wedi ceisio ymuno â chwrs yn Aberffraw ond na allodd wneud hynny gan fod y cwrs wedi cael ei dynnu'n ôl gan mai hi oedd yr unig un i roi ei henw ymlaen. Mae hyn yn broblem gyffredin mewn ardal wledig wasgaredig. Mae'n rhaid i'r darparwyr gyrraedd y nifer gofynnol er mwyn gwneud y cyrsiau yn gynaliadwy, ac mae hynny'n gallu bod yn anodd mewn canolfannau poblogaeth fechan. Fe geisiodd yn ofer ddod o hyd i gyrsiau eraill ac yr oedd wrth ei bodd dod o hyd i'r cwrs hwn "ar stepen y drws". Yr oedd wedi ymuno â Sefydliad y Merched yn lleol ac wedi clywed am y cwrs gan aelod arall yno. Mae'n glir bod yr awyrgylch anffurfiol cyfeillgar sy'n cael ei greu gan yr athro wedi annog pobl i ymuno.

Mae llwyddiant y prosiect yn cael ei ategu gan y ffaith y bydd uned Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Cymru Bangor yn rhedeg cwrs Wlpan, sef cwrs llawn i ddechreuwyr yn y pentref, gan ddechrau ym mis Medi. Cynhelir y cwrs yn yr eglwys leol, sydd â llofft gyffyrddus wedi ei haddasu, ynghyd â crèche yn y ganolfan gymunedol gyfagos. Mae hyn yn beth newydd i'r uned Cymraeg i Oedolion ac yn ganlyniad uniongyrchol o fenter GWLAD.

Hoffai'r grŵp ymarfer eu sgiliau newydd dros yr haf. Awgrymwyd y dylent gyfarfod â'i gilydd fel grŵp ac mae'r hyfforddwr wedi trefnu i gyfarfod â'r grŵp dair gwaith yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst er mwyn cadw momentwm y dysgu. Mae o leiaf wyth ohonynt yn bwriadu cychwyn ar y cwrs Wlpan ym mis Medi.

Roedd y ganmoliaeth i'r hyfforddwr yn uchel mewn grŵp ffocws a gynhaliwyd ar ddiwrnod olaf y cwrs.

> "Mae S. yn gwneud pethau'n hwyl … yr ydym o ddifrif, ond rydym hefyd yn cael hwyl."
>
> "y mae'n adeiladu hyder i bawb, rwy'n dechrau defnyddio'r Gymraeg mewn ychydig o sgyrsiau, mewn lleoedd fel y Swyddfa Bost a'r bore yma siaradais Gymraeg yn y banc. Mae pobl yn gwerthfawrogi'n fawr eich bod yn ceisio dysgu."
>
> "Roeddwn yn ei hoffi pan oedd pethau'n rhyngweithiol, yr oedd fel gwneud drama, roedd yn torri'r ia ac yn eich gwneud yn llai hunan ymwybodol."
>
> "Mae wedi bod yn gyfleus iawn o ran y plant, rwyf wedi mwynhau dod â'r ferch gyda mi ... ac mae'r wraig wedi gallu dod pan nad yw'n gweithio. Yn bendant byddaf yn dal ati ac mae'n wych eu bod am gael crèche yno hefyd."
>
> "Roedd yn wych gydag awyrgylch anffurfiol cyffyrddus, ac roedd yn dda fy mod yn gallu dod â'm merch 15 mis oed gyda mi. Fyddwn i ddim wedi gallu dod fel arall. Mae fy ngŵr wedi bod ychydig o weithiau ond mae wedi gorfod methu rhai sesiynau oherwydd ymrwymiadau gwaith. Ond mae S. bob amser wedi rhoi croeso i bobl sy'n picio i mewn ac allan a rhywsut wedi gadael iddo yntau ddal i fyny wrth iddi hi fynd ymlaen i gynnig pethau newydd i'r gweddill ohonom. Felly er ei bod yn hwyl ac yn gyfeillgar iawn, roedd yn ein dysgu ni'n iawn ac rydw i wedi dysgu llawer."

Roedd llawer o'r grŵp wedi ceisio dysgu Cymraeg o'r blaen. Dywedodd un ei bod wedi colli diddordeb oherwydd hyfforddwr oedd â diddordeb mewn dim ond cael pobl i basio'r arholiadau. Mae rhai wedi mynegi pryder y bydd y cyrsiau Wlpan yn rhy ffurfiol ac yn cael eu harwain gan yr arholiadau, ond mae'r tiwtor wedi dweud wrthynt nad felly y bydd. Mae'r holl fuddiolwyr yn falch mai eu tiwtor presennol fydd yn darparu'r cwrs Wlpan.

Mae'n glir bod gan y grŵp ymdeimlad cryf o berchenogaeth o'r prosiect ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu hymrwymiad i ddysgu. Ar eu cais hwy darparwyd y cwrs mewn lleoliad a ddewiswyd ganddynt hwy eu hunain ac y mae'r record gadarn o bresenoldeb trwy gydol y cwrs yn cadarnhau pwysigrwydd hynny. Mae'n amlwg bod y cwrs rhagflas hwn wedi dileu unrhyw ofnau ynglŷn â "methu" â dysgu'r iaith.

d) Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU SY'N DYSGU

Mae pob agwedd o'r fenter hon yn adlewyrchu pob un o dri nod GWLAD: mae'n ymwneud â'r cwestiwn o rymuso grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol (yn yr achos hwn, grwpiau ynysig,) trwy ddefnyddio'r dulliau newydd o hwyluso gwell cyfleoedd cyflogaeth ac ymgysylltu'n well gyda gweithgareddau'r economi gymdeithasol.

Mae ffocws y prosiect ar ddysgu anffurfiol sy'n cael ei arwain gan y gymuned, gan ddefnyddio prosesau cydgyfrannog ac integredig o ddatblygu cymunedol mewn cyd-destun gwledig. Mae tri llinyn y prosiect yn cael eu gweithredu yng Nghanolfan Gymunedol Capel Curig, sy'n ganolfan wledig integredig sydd newydd gael ei ddatblygu ond sy'n gwasanaethu ardal ehangach ucheldiroedd Conwy.

Seiliau economaidd yr ardal yw amaethyddiaeth, twristiaeth a chwaraeon antur a'r diwydiannau amgylcheddol. Mae'r cydweithredu rhwng y tri sector yn gyfyngedig er bod posibiliadau mawr o greu cyfleoedd newydd pe bai mwy o gyfathrebu ac integreiddio. Mae pobl ifanc yn symud allan o'r ardal i chwilio am dai, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o ansawdd, ac mae diffyg cynhaliaeth datblygu yn golygu bod teuluoedd fferm a grwpiau pobl hŷn yn cael eu hynysu'n gynyddol.

Mae'r prosiect yma'n canolbwyntio ar hen syniadau a thechnolegau newydd er mwyn delio â'r broblem o fynediad cyfyngedig i gyfleoedd

lleol, yn arbennig i bobl ifanc, merched a dynion hŷn. Mae'n defnyddio arbenigedd cymunedol i adeiladu a rhannu sgiliau a gwybodaeth, i ennill hyder ac i adeiladu ffyrdd arloesol o feddwl.

Y nod yw datblygu cymuned ddysgu integredig, gan ddefnyddio dulliau cyfunol a chyfrannog sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Wrth i hyder ymhlith cyfranogwyr gynyddu ac wrth i gyfalaf cymdeithasol datblygu, rhagwelir y bydd pob agwedd ar y fenter yn dod yn fwy a mwy cynaliadwy ac yn fwy cynhaliol o'i gilydd, gan ddefnyddio sgiliau ac arbenigeddau newydd a thraddodiadol i gynnal a chadw hunaniaeth a chyfanrwydd lleol.

- Mae'r Grŵp Ffilmio a Golygu Digidol yn tyfu o ran nifer y buddiolwyr a nifer y sesiynau a gynhelir. Erbyn hyn mae tri grŵp o chwech o bobl ifanc yn ymwneud â'r rhaglen dreigl hon sy'n datblygu sgiliau ffilmio a golygu. Mae hyn yn amrywio, er enghraifft, o brosiect amgylcheddol cynt ac wedyn yng nghoedwig Gwydr i ddatblygu clipiau fideo fel cardiau post digidol, cofnodi gweithgareddau chwaraeon a dweud storïau yn ddigidol. Bydd dau siaradwr gwadd yn ymuno â'r grŵp yn ystod mis Medi i siarad am gyfleoedd digidol i archwilio'r posibiliadau o safbwynt creu cyflogaeth newydd o ansawdd a chyflogaeth fyd-eang iddynt eu hunain yng Nghymru wledig trwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.
- Anelir Clwb Cymry'r Ucheldir at ddynion cefn gwlad yn bennaf ond mae'n cynnwys aelodau o'u teulu os ydynt eisiau ymuno â'r gweithgareddau. Mae rhwydweithiau gwledig dynion, yn arbennig rhai amaethyddol, wedi dioddef yn enbyd oherwydd nifer o argyfyngau dros y deng mlynedd diwethaf (rhai demograffig, diwydiannol a diwylliannol). Mae hyder wedi suddo'n is nag erioed ac mae cael at y math iawn o gynhaliaeth er mwyn datblygu cyfleoedd a hyder yn anodd mewn ardal ynysig. Mae dynion yn grŵp anodd iawn ei gyrraedd o safbwynt gweithgareddau dysgu a hefyd o ran eu cael i dderbyn gwasanaethau cynnal. Gan hynny, mae'r grŵp hwn yn llwyddiannus iawn gyda rhwng 15 a 30 yn mynychu sesiynau (mae'r nifer yn amrywio yn ôl y calendr amaethyddiaeth a thwristiaeth).

  Mae'r clwb hwn yn cychwyn gyda realiti'r dynion eu hunain, a realiti eu teuluoedd, a hynny sy'n gosod sail i adeiladu rhwydwaith newydd gyda'r aelodau eu hunain yn ei ddatblygu.

  Hyd yma mae'r digwyddiadau wedi cynnwys sesiynau anffurfiol ar

ddiwylliant ac iaith, swyddogaeth ffordd yr A5 mewn datblygu'r ardal drwy'r blynyddoedd ac edrych ar hanes bugeilio defaid a ffermydd teuluol yng Nghanolbarth Cymru. Ym mis Mai cafwyd ymweliad astudio i Ffair Caron, ac roedd yr aelodau'n canfod ac yn gwerthuso pwysigrwydd bywydau a gweithgareddau lleol er mwyn cynnal diwylliant, adleoleiddio a datblygu twristiaeth o ansawdd.

Ddiwedd yr haf ac yn yr hydref cynllunnir sesiynau ar greu archif digidol ar gyfer yr ardal, datblygu gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol, cysylltu gyda rhwydweithiau eraill a chael mwy o siaradwyr, gyda'r cynnwys yn berthnasol i syniadau'r dynion ynglŷn â datblygu.

Mae'n ddiddorol bod barddoniaeth (englynion yn arbennig) a llenyddiaeth wedi bod yn rhan o bob un sesiwn, beth bynnag oedd y pwnc. Mae'r grŵp yn bwriadu cynnal dau ddigwyddiad o farddoniaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod sef 'STOMP' ac, os yn bosibl, YMRYSON y BEIRDD. Oherwydd y diddordeb eang mewn ysgrifennu a barddoniaeth, mae'r grŵp yn ystyried y posibilrwydd o gynnal gweithdy ysgrifennu a barddoniaeth yn y dyfodol.

- Mae'r Clwb Busnes i Ferched ar fin dechrau ym mis Medi. Hyd yma bu cryn ddiddordeb – gan ferched ifainc sydd eisiau cychwyn busnesau annibynnol ar ddechrau eu cyfnod mewn gwaith a gwragedd hŷn yn chwilio am gyfleoedd i arallgyfeirio a chreu posibiliadau iddynt ennill gwell incwm tra'n cynnal eu teulu a'u swyddogaethau cymunedol. Rhagwelir y bydd o leiaf deg o ferched yn mynychu, er bod y diddordeb a fynegir yn awgrymu y gallai'r nifer fod yn nes at 20.

Mae'r canlyniadau yn ganlyniadau 'meddal' yn y lle cyntaf – cymuned sy'n mwynhau ei hunan a'i thrysorau ac yn creu mwy o lawenydd i'r teuluoedd. Wrth i'r gweithgareddau ddatblygu byddir yn gwerthuso'r canlyniadau blaenorol ond mae'r dystiolaeth anecdotaidd hyd yma yn awgrymu bod y broses yn gweithio hyd yn hyn.

Mae rhai syniadau ynglŷn ag ymestyn cyfranogiad ymhellach fyth yn cael eu datblygu (er enghraifft 'cylchu' sesiynau yn hytrach na'u cynnal i gyd mewn un lleoliad; gwneud y gwaith papur yn symlach; cofnodi'r sesiynau yn well a chael mwy o sesiynau rheolaidd i adfyfyrio – er bod gwneud yr olaf o'r rhain mewn ffordd anffurfiol yn fwy derbyniol yn y cyfnod cychwynnol hwn heb wneud i bobl gadw draw o'r sesiynau).

4. YMCHWIL A GWEITHGAREDDAU – O DDYSGU I GYFLOGAETH

a) YMCHWILIO I BROFIAD GWIRFODDOLWYR – MEDRWN MÔN

Mae pecyn gwaith Medrwn Môn wedi canolbwyntio ar ein trydedd nod o "ddysgu i gyflogaeth". Mae'r bartneriaeth hon yn cwmpasu'r holl sector gwirfoddol yn ardal wledig Ynys Môn ac yn gallu troi at eu harbenigedd o weithio yn y sector gwirfoddol a defnyddio'r ystod eang o gysylltiadau sydd ganddynt.

Mae'r gwaith yn syrthio o fewn tri chategori cyffredinol:

- Edrych ar brofiad pobl o wirfoddoli (ac adeiladu ar y sgiliau hynny)
- Ymchwilio i'r cwestiwn o gyflogwyr yn derbyn pobl ddi-waith i gael profiad gwaith ar sail wirfoddol
- Gweithio gyda chyflogwyr er mwyn rhyddhau gweithwyr i wneud gwaith gwirfoddol

Y gred sydd wrth wraidd yr holl faterion hyn yw bod gwirfoddoli yn werthfawr i bobl sydd heb waith ac i bobl sydd mewn gwaith. Mae gwirfoddoli'n gallu caniatáu i'r grŵp cyntaf ddatblygu sgiliau a phrofiadau a all arwain at gyflogaeth, ac yn gallu helpu'r ail grŵp i ddatblygu cysylltiadau rhwng busnesau a'r gymuned leol yn ogystal â dod a sgiliau, a ddatblygwyd trwy wirfoddoli, i mewn i'r gweithle.

Ymchwilio i'r profiad o wirfoddoli

Cafwyd cyswllt o Fforwm Gwirfoddolwyr Medrwn Môn a gyflwynodd ymchwilydd GWLAD i grŵp o wirfoddolwyr a oedd yn awyddus i gymryd rhan mewn ymchwil i wirfoddoli. Cynhaliwyd chwe chyfweliad unigol yn ogystal â grŵp ffocws gyda 20 o wirfoddolwyr yn bresennol a chafwyd cyfoeth o wybodaeth. Delwyd ag ystod o wahanol bynciau:

1. rhesymau dros wneud gwaith gwirfoddol
2. y sgiliau a ddysgwyd
3. gweithgareddau gwirfoddoli
4. datblygiadau a ddeilliodd o hynny
5. disgwyliadau
6. gwobr
7. datblygu personol

Roedd yn glir bod y gwirfoddolwyr yn cael llawn gymaint allan o wirfoddoli ag yr oeddent yn ei roi i mewn, ac yr oeddent yn barod iawn i gydnabod hynny. Roedd y cymhellion dros wirfoddoli yn amrywio o gyfarfod â phobl newydd (a nodwyd 13 o weithiau) i ddysgu sgiliau newydd ac ehangu profiadau (12 o weithiau), cynyddu hunan hyder ("meddwl mwy ohonof fy hunan") (10 gwaith) a helpu pobl eraill ("rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymdeithas") (12 gwaith).

Roedd gan y grŵp o wirfoddolwyr gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu ar y sgiliau yr oeddent wedi eu datblygu trwy wneud gwaith gwirfoddol. Yr oeddent eisoes yn rhedeg dwy fenter ffrwythau a llysiau cydweithredol yn eu tref ac eisiau ymestyn eu mentrau trwy dyfu bwyd yn lleol ar gyfer pobl leol ac archwilio'r posibilrwydd o gynnal dosbarthiadau coginio a chaffi cymunedol. Bu'n rhaid canslo trip a drefnwyd i Cumbria i ymweld ag unedau cydweithredol enghreifftiol yr Uned Adfywio Gwledig pan gododd yr Uned dâl annisgwyl ar y funud olaf heb fod gennym unrhyw gyllideb ar ei gyfer. Cafodd y gwirfoddolwr a oedd tu ôl i'r cynllun tyfu llysiau, swydd gyflogedig (diolch meddai ef i'r sgiliau a ddatblygodd wrth wneud gwaith gwirfoddol) ac mae'r ffocws wedi symud yn awr at goginio ac agor caffi cymunedol. I'r perwyl hwn trefnwyd i ymweld â menter bwyd cydweithredol/caffi cymunedol yn yr Wyddgrug a chaffi cymunedol yn Wrecsam. (Gweler Dysgu Anffurfiol ar gyfer Gwirfoddolwyr isod).

Roedd y gwirfoddolwyr hyn hefyd eisiau cynnal archwiliad cymunedol, gan eu bod yn anfodlon gyda'r un a gynhaliwyd yn ddiweddar a oedd yn eu barn hwy yn ormod o ymarferiad o'r "brig i'r bôn" oedd yn cymryd dim sylw o'r farn leol. Cynhaliwyd nifer o weithdai a thrafodaethau ac ystod o wahanol ddulliau o gasglu data ansoddol ond ni chynhaliwyd yr arolwg oherwydd y sefyllfa boliticaidd sensitif yn lleol ac ystyriaethau yn ymwneud â newid personol mewn asiantaeth gymunedol.

Mae gwerth gwirfoddoli yn cael ei gydnabod yn eang. Er enghraifft mae gan Cyngor ar Bopeth gynllun sy'n annog cleientiaid i fod yn wirfoddolwyr; mae cyflawniadau'n cael eu mesur o safbwynt pellter a deithir. Dywedodd un fam ifanc a gafodd yr hyfforddiant hwn ei bod wedi cael "budd enfawr ... fe dynnodd CAB fi allan ohonof fy hunan ... mae'n golygu datblygu hyder a phob math o sgiliau sy'n edrych yn dda ar eich CV." Erbyn hyn mae ganddi "swydd wych" sy'n rhoi pleser mawr iddi a dywed nad oes dim edrych yn ôl iddi hi yn awr. Mae'n teimlo bod

“cyflogwyr yn awr yn chwilio am bobl sydd â chymwyseddau yn hytrach na chymwysterau.”

Roedd yr ymchwil a wnaethom i wirfoddoli ar Ynys Môn yn dangos bod pobl yn cael budd mawr o’u profiadau o wirfoddoli a hefyd yn amlygu rhai o’r anawsterau a wynebir gan bobl sy’n ceisio gweithio gyda’i gilydd yn eu cymunedau.

Busnesau yn rhoi lleoliadau i bobl ddi-waith
Credai Medrwn Môn mai un ffordd bosibl i gael pobl ddi-waith i ennill profiad gwaith gwerthfawr oedd trwy wirfoddoli yn y sector preifat. Nid oedd unrhyw lenyddiaeth ar gael ynglŷn â gwirfoddoli yn y sector preifat (er bod digon o ddata o’r ochr arall, hynny yw cyflogwyr yn rhyddhau staff i wneud gwaith gwirfoddol) penderfynwyd gwneud ymchwil ar y pwnc hwn fel rhan o brosiect GWLAD.

Anfonwyd holiaduron at 100 o fusnesau ar Ynys Môn yn gofyn i gyflogwyr a fyddent yn fodlon lleoli gwirfoddolwyr yn eu gweithle. Holwyd yr ychydig fusnesau mawr sydd ar yr ynys. Roedd rhai yn gwmnïau cenedlaethol (banciau, cymdeithasau adeiladu, archfarchnadoedd ac yn y blaen), ond yn bennaf roeddent yn fusnesau bach a chanolig eu maint neu’n ficrofusnesau, sef y sector amlycaf yn economi'r ynys. Y nod oedd defnyddio’r holiaduron i weld pa fath o waith y gallent ei gynnig, pa fath o weithwyr yr oeddent yn chwilio amdanynt, beth oedd y rhwystrau (os oedd yna rwystrau) yr anghenion a’r disgwyliadau a oedd ganddynt a pha hyfforddiant y gallent ei gynnig. Anfonwyd yr holiaduron allan ddechrau Tachwedd 2005: erbyn canol mis Rhagfyr roedd chwech wedi cael eu hanfon yn ôl. Ffoniwyd hanner y busnesau ac ail-anfonwyd 25 o holiaduron trwy e-bost.

Wrth edrych yn ôl, efallai y byddai wedi bod yn well galw’r prosiect yn “brofiad gwaith”. Gellid dadlau y byddai cyflogwyr yn fwy parod i gymryd pobl sy’n chwilio am brofiad gwaith na derbyn “gwirfoddolwyr”. Mae’r ail derm yn awgrymu elfen allgarol nad yw efallai yn gorffwys yn rhy dda ym myd busnes. Efallai y byddai’r syniad o berson di-waith yn chwilio am brofiad gwaith wedi cael ei weld fel llai o fygythiad a mwy o her, gyda’r grym yn aros yn gadarn yn nwylo’r cyflogwr yn ei rôl gyfarwyddol.

Daeth yn glir hefyd nad oes gan fusnesau bach a chanolig, ar y cyfan, yr adnoddau i dderbyn gwirfoddolwyr. Er enghraifft, dywedodd dylunydd

graffig oedd yn gweithio ar ei ben ei hun o'i gartref ei hun, nad oedd ganddo le nac amser i gynnig dim i wirfoddolwyr. (Roedd amser yn cael ei nodi fel ffactor gan 90% o'r bobl a ffoniwyd). Ein prif gasgliad o hyn yw nad yw'r sector preifat yn Ynys Môn ar hyn o bryd yn gweld mantais i dderbyn gwirfoddolwyr. Nid yw hynny o anghenraid yn golygu nad oes manteision o'r fath, ond mae angen gwneud mwy o waith gyda'r sector er mwyn canfod y posibiliadau.

Busnesau yn rhyddhau staff i wneud gwaith gwirfoddol (gwaith ar y gweill, Mehefin 2007) – Mae Medrwn Môn yn ymchwilio i ddichonoldeb cychwyn y cynllun hwn gyda busnesau ar draws yr ynys. Y nod yw cychwyn y prosiect "adref" gyda staff yr asiantaeth yn cael eu rhyddhau i wirfoddoli. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu cyfweld er mwyn gweld beth oedd y buddion a'r nod yw datblygu pecyn o arferion gorau ar gyfer cyflogwyr. Unwaith y bydd y cyflogwyr yn gweld y manteision o gymryd rhan yn y prosiect, gobeithir y byddant yn cydnabod posibiliadau lleoli gwirfoddolwyr sy'n dymuno ennill profiad yn y gweithle.

Cyfrannodd Gerddi Twt gynlluniau ar gyfer gardd gymunedol bywyd gwyllt yn Ysgol Llaingoch i Busnes yn y Gymuned. Roedd Busnes yn y Gymuned wedi bwriadu recriwtio gweithwyr o fusnesau lleol i wneud y gwaith. Yn y pendraw, tynnodd Busnes yn y Gymuned allan o'r cynllun ac ymgymerodd Medrwn Môn â'r gwaith o ddod o hyd i gyflogwyr a fyddai'n fodlon rhyddhau staff i wneud y prosiect. Mae Homebase yng Nghaergybi wedi cytuno i ddarparu deunyddiau ac mae trafodaethau ar y gweill gydag un o'r cyflogwyr mwyaf ar yr ynys.

Mae Medrwn Môn yn bwriadu datblygu pecyn gwaith i gyflogwyr, yn seiliedig ar brofiadau cyrff a gymerodd ran, gyda'r nod o ddosbarthu gwybodaeth am fanteision cyfranogi mewn gwaith gwirfoddol lleol i'w gweithlu eu hunain ac i'r gymuned leol.

b) DYSGU ANFFURFIOL I WIRFODDOLWYR

Mae gwirfoddolwyr Caergybi yn rhedeg dwy fenter gydweithredol ffrwythau a llysiau yn y dref: un bob dydd Mercher ac un bob dydd Gwener. Maent yn grŵp brwdfrydig a threfnus gyda chraidd o tua 12 aelod rheolaidd. Maent yn gwneud pob math o waith gwirfoddol: er enghraifft rhwng mis Ionawr a mis Mai 2007 codwyd £1300 ganddynt trwy gynnal cwis nos Sul yn y ganolfan gymunedol ar gyfer LL65, digwyddiad sy'n rhoi cyfleoedd i gerddorion lleol na fyddent yn eu cael

fel arall. Maent yn trefnu teithiau cerdded ar y cyd â Calon Lân ac fel y dywedodd un gwirfoddolwr, “Yr ydym yn helpu ym mhle bynnag mae ein hangen ... yr ydym bob amser wedi gwneud hynny, fel oedd ein mamau yn gwneud o’n blaen ni.”

Mae’r grŵp wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ymchwil GWLAD. Cynhaliwyd grwpiau ffocws, cyfweliadau a chyfarfodydd yn hydref 2005 gyda gwirfoddolwyr yn cadarnhau buddion gwirfoddoli ac yn rhannau eu teimladau ynglŷn ag ystod o faterion cysylltiedig.

Trefnwyd taith yn lle’r ymgais fethiannus i ymweld â’r fenter gydweithredol enghreifftiol sydd gan yr Uned Adfywio Gwledig yn Cumbria yn 2006. (Ni allwyd mynd oherwydd costau munud olaf annisgwyl a godwyd gan yr Uned Adfywio). Roedd y gwirfoddolwyr eisiau ymweld â menter gydweithredol bwyd arall, i weld a allent gael syniadau newydd i ddefnyddio yn eu menter eu hunain. Roeddent hefyd yn barod iawn i rannu eu harbenigedd gyda gwirfoddolwyr eraill. Roedd gan rai ohonynt ddiddordeb mewn datblygu caffi cymunedol, sy’n bosibilrwydd go iawn yn awr bod cegin y ganolfan gymunedol wedi cael ei hadnewyddu. Trefnwyd taith i Bryn Gwalia yn yr Wyddgrug ar y cyd gyda’r Uned Adfywio Gwledig, wedyn ymweliad â’r Caffi Cymunedol ym Mharc Caia, Wrecsam.

Aeth deunaw o bobl ar y daith (14 o Gaergybi a phedwar o’r co-op yn Llangefni). Cyfnewidiwyd gwybodaeth gyda’r gwirfoddolwyr ym Mryn Gwalia, trafodwyd atebion i broblemau cyffredin a chymharwyd systemau cofnodi. Hefyd roedd y gwirfoddolwyr yn gallu archwilio rhai o fuddion (a pheryglon) rhedeg caffi cymunedol gyda gwirfoddolwyr gwadd oedd wedi bod yn cymryd rhan mewn menter o’r fath. Un o’r canlyniadau annisgwyl, fodd bynnag, yw dymuniad y grŵp i edrych ar y posibiliadau o ddechrau eu Hundeb Credyd eu hunain.

Mae Undeb Credyd Bryn Gwalia yn cael ei gynnal ar yr un diwrnodau â’r fenter gydweithredol. Bu gwirfoddolwyr Caergybi yn ystyried agor eu Hundeb Credyd eu hunain am beth amser, ond hyd yn hyn nid oeddynt wedi datblygu’r syniad. Bu grŵp o bedwar aelod yn treulio’r cyfan o’r ymweliad yn trafod manion y gwaith o redeg Undeb Credyd gyda gŵr sy’n gweithio’n agos gydag Undeb Credyd Bryn Gwalia. Mae’r gwirfoddolwyr hyn yn “bendant” yn bwriadu agor eu Hundeb Credyd eu hunain. Casglwyd cyfoeth o wybodaeth ac mae tri ohonynt ar fin gwneud yr hyfforddiant y cynghorodd eu mentor newydd iddynt ei ddilyn.

Fel y dywedodd un gwirfoddolwr allweddol, “Dysgwyd cymaint oddi wrth C., er enghraifft nid oeddwn wedi deall sut y gallai Undeb Credyd fenthyg tair gwaith cymaint i berson ag yr oeddent wedi ei gynilo ar ôl 12 wythnos, ond eglurodd C i mi sut yr oedd y cyfan yn gweithio a gyda phwy y dylem gysylltu er mwyn cael yr wybodaeth sydd ei hangen … hefyd byddai’n ddelfrydol ei gynnal ar yr un pryd â’r co-op gan y gallai pobl gasglu ei neges a defnyddio’r Undeb Credyd yr un pryd. Mae cryn dipyn o aelodau’r co-op eisoes yn cynilo gyda Clwb Nadolig (sy’n cael ei gynnal ar yr un oriau â’r co-ops) bob wythnos, felly mae Undeb Credyd yn ddatblygiad rhesymegol o hynny ... dywedodd C. eu bod wedi ceisio rhedeg un o swyddfeydd y cyngor yn yr Wyddgrug ond doedd hynny ddim wedi gweithio gan fod gan rai o’r cwsmeriaid ddyledion rhent a doeddent ddim eisiau mynd i’r swyddfa ... ond yma byddai pawb yn ennill gyda mwy o bobl yn cael eu hannog i ymuno â’r co-op wrth iddynt ddod i mewn i ddefnyddio’r Undeb Credyd.” Roedd gwirfoddolwr arall yn teimlo y byddai cychwyn caffi cymunedol ar raddfa fechan yn fwy llwyddiannus byth pe bai pobl yn ymweld â’r ganolfan. Mae gwirfoddolwyr Caergybi wedi creu cysylltiadau cadarn gyda gwirfoddolwyr Bryn Gwalia ac wedi eu gwahodd i dalu’r pwyth trwy ymweld â Chaergybi. Mae trefnydd Undeb Credyd wedi addo darparu unrhyw gyngor neu arweiniad fydd ei angen.

Cododd cyfleoedd pellach i rwydweithio ym Mharc Caia. Cafodd y gwirfoddolwyr ginio yn y caffi cymunedol a chawsant gyfle i siarad gyda’r trigolion am y fenter. Cafwyd cyngor ymarferol (megis cadw’r fwydlen yn syml, gwneud cawl ffres bob dydd, a chyngor am Dreth ar Werth) ac mae’r gwirfoddolwyr yn awr yn ystyried cychwyn menter ar raddfa fechan bob pythefnos yn eu canolfan gymunedol eu hunain. Roedd yn well gan rai ohonynt y syniad o agor caffi cymunedol yn y dref. Maent yn bwriadu ymgynghori gyda gweithiwr datblygu cymunedol ym Mharc Caia a ddywedodd y byddai’n falch o drosglwyddo cyngor ac arweiniad iddynt. Maent yn cydnabod bod angen gwneud mwy o ymchwil cyn y gellir datblygu mwy ar y syniad yma.

Wythnos ar ôl y trip, roedd y grŵp craidd o wirfoddolwyr yn cytuno yr enillwyd llawer o’r trip. Mae brwdfrydedd pendant ac ymrwymiad i’r syniad o agor Undeb Credyd yn ogystal â diddordeb mewn edrych ar ffyrdd o ddatblygu caffi cymunedol.

c) DATBLYGU YMYRIADAU YSGOGIADOL CYFRIFIADUROL AR GYFER POBL CYFLOGEDIG A DI-WAITH SY'N CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU – CAIS

Mae gwaith CAIS ym mhartneriaeth GWLAD yn dod o dan ein nod o ddefnyddio dysgu fel ffordd i gael cyflogaeth. Agwedd benodol CAIS tuag at ddysgu yw defnyddio ymyriad ysgogiadol sy'n caniatáu pobl reoli eu hymddygiad o gamddefnyddio sylweddau fel eu bod yn gallu cael eu cyflogi neu aros mewn cyflogaeth.

CAIS yw'r prif ddarparwr gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu ym 1976 fel Cyngor Clwyd a Gwynedd ar Alcoholiaeth a'i brif nod yw darparu ystod o wasanaethau ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, a gweithio gyda chymunedau ac asiantaethau eraill er mwyn atal niwed cysylltiedig ag alcohol a chyffuriau.

Mae datganiad cenhadaeth yr asiantaeth yn dweud mai ei nod yw:
lleihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol a chyffuriau trwy ddarparu ystod o wasanaethau ac ymyriadau effeithiol a thrwy weithio gydag eraill er mwyn atal niwed cysylltiedig ag alcohol a chyffuriau fel bod unigolion a chymunedau yn gallu gwneud y gorau o'u potensial o safbwynt cymdeithasol, iechyd ac economaidd.

Dros y 25 mlynedd ddiwethaf mae **CAIS** wedi datblygu ystod gynhwysfawr o wasanaethau cleient ganolog mewn gwahanol leoliadau ar draws y rhanbarth, ac yn y cyfan o'i weithgareddau mae **CAIS** yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth gydag eraill yn unol â Strategaeth Cymru Gyfan – Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru – Y Dull Partneriaeth. (Gwefan CAIS) Mae CAIS yn aelod o Dîm Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAT) ym mhob sir.

Mae pecyn gwaith CAIS ar gyfer GWLAD wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymyriadau ysgogiadol cyfrifiadurol ar gyfer pobl gyflogedig neu ddi-waith sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae'r canlynol yn grynodeb o ran o adroddiad CAIS i'r bartneriaeth:

Roedd y prosiect peilot hwn yn anelu at recriwtio dau sampl y mae'n anodd iawn ymgysylltu â hwy: pobl ddi-waith, afreolus sy'n camddefnyddio sylweddau a phobl lai afreolus sy'n camddefnyddio sylweddau ac sy'n cael eu cyflogi mewn diwydiannau trymion. Roedd y prosiect yn dipyn mwy llwyddiannus o ran recriwtio camddefnyddwyr

afreolus nac mewn recriwtio pobl mewn swyddi ... Nid oedd y gwirfoddolwyr cyflogedig a roddodd eu henwau ymlaen ar gyfer y prosiect yn cwrdd â'r meini prawf angenrheidiol i gael eu cynnwys. ... Roedd y sgôr isel iawn ar gyfer canlyniadau negyddol a nodwyd gan y cyfranogwyr yn cadarnhau nad oedd y sampl yma yn camddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Ond roedd y sampl serch hynny, yn gymharydd da i'w osod yn erbyn y sampl o bobl ddi-waith.

Yr oedd y sampl o bobl ddi-waith yn wahanol mewn nifer o ffyrdd i'r sampl oedd mewn gwaith. Yn wahanol i'r sampl oedd yn gyflogedig, roedd yr unigolyn hynny, yn nodweddiadol, yn sengl neu o berthynas oedd wedi methu … ac roeddent yn byw ar eu pen eu hunain. Roedd nifer y problemau a nodwyd ganddynt ynglŷn â'u defnydd o gyffuriau yn gosod eu hunain o fewn yr ystod gyfartalog ar gyfer pobl sy'n cael triniaeth. Roedd mesur o'u hansawdd bywyd (hynny yw eu sgôr lles personol) yn eu gosod gryn yn is na'r normau sy'n seiliedig ar Awstralia a'r sampl o bobl o blith pobl gyflogedig.

Roedd y sampl o'r di-waith yn cynnwys defnyddwyr sylweddau afreolus … Roedd y prosiect yn ymchwilio i lefel y newidiadau dros gyfnod o amser. Oherwydd y defnydd afreolus o sylweddau gan y sampl di-waith yr oedd y gyfradd gadael cyn gorffen yn isel iawn – dim ond 17% o'r sampl di-waith. Fe gollwyd canran tebyg o ddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol yn yr ymarferiad dilyn i fyny. O gymharu â'r cyfartaledd defnydd yn ystod y tri mis cyn y prosiect, roedd y defnyddwyr alcohol wedi lleihau 48% ar eu defnydd o alcohol yn ystod y pedwar mis o ddilyn i fyny ac yr oedd y defnyddwyr cyffuriau anghyfreithlon wedi lleihau 62% ar eu defnydd. Yn gyffredinol roedd gostyngiad o 29% yn nifer y diwrnodau o ddefnyddio sylweddau wrth ddilyn i fyny. Roedd y gostyngiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu hefyd yn nifer y canlyniadau negyddol a brofwyd ac yn ansawdd bywyd. Roedd yn ddiddorol mae'r defnyddwyr cyffuriau oedd â thueddiad i nodi llai o ganlyniadau negyddol a'r mwyaf o welliannau yn ansawdd bywyd. Mae'n bosibl y gellir egluro hyn oherwydd bod y defnyddwyr alcohol yn dal i yfed gormod o lawer (hynny yw 66 uned yr wythnos), er gwaethaf gostyngiadau sylweddol.

Mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau yn ei chael yn anodd cael unigolion i gymryd rhan mewn ymyriadau camddefnyddio sylweddau. Y mae bob amser yn anodd cymell camddefnyddwyr sylweddau i newid. Roedd y prosiect hwn wedi'i anelu at gael argraff o farn defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ymyriadau ac a oeddent yn teimlo cymhelliant i newid trwy gymryd rhan. Yr oedd y ddau ymyriad yn cael eu cymeradwyo'n uchel i eraill (er enghraifft mwy na 80% o'r rhai a

gymerodd ran yn rhoi'r sgôr uchaf posibl i'r ymyriadau); roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran hefyd yn dweud eu bod wedi cael eu cymell yn llwyr i gymryd rhan-69% ar gyfer yr Ymyriad Byr Estynedig (EBI) a 68% ar gyfer yr Arolwg Ffordd o Fyw. Fel y disgwylid, wrth ddilyn i fyny ar ôl pedwar mis yr oedd yr hunan adroddiadau ynglŷn â lefel o gymhelliant wedi lleihau ond roedd cyfran sylweddol o'r unigolion (hynny yw 46%) yn rhoi'r sgôr uchaf. Yr argraff yw bod yr ymyriadau hyn wedi cael derbyniad da gan y rhai a gymerodd ran – a bod hynny'n cael ei gadarnhau gan y canran gadael cyn gorffen isel – a'u bod yn werthfawr o ran cymell pobl i newid y ffordd yr oeddent yn defnyddio sylweddau.

Mae CAIS yn bwriadu defnyddio'r pecyn gweithredu yn ei ffurf bresennol gyda chamddefnyddwyr sylweddau mewn gwahanol leoliadau, yn ogystal â datblygu dulliau ategol fel rhan o fenter cyllid Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd. Mae cynlluniau cychwynnol yn nodi'r angen i ymchwilio i ddatblygu pecyn i sgrinio iechyd cyffredinol, pecyn ar gyfer y rhwystrau i gyflogaeth a rhwystrau i addysg, fydd yn cyfrannu at ystod gynhwysfawr o becynnau a fydd yn defnyddio'r dull hwn o weithredu yn seiliedig ar seicoleg. Mae CAIS yn cynllunio gweithredu dros chwe blynedd i ymchwilio, datblygu, gweithredu, treialu'r pecynnau hyn a'u rhoi ar waith.

Trwy fod yn rhan o Bartneriaeth Ddatblygu GWLAD mae CAIS wedi gallu datblygu a rhoi prawf ar y peilot arloesol hwn yng nghefn gwlad gogledd Cymru er budd ei grŵp cleientiaid a gyda'r posibilrwydd o fod â sylfaen ehangach o lawer o gleientiaid. Mae trafodaethau ar y gweill gydag un o'r partneriaid trawswladol er mwyn ymestyn sgôp y prosiect o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Dymuna CAIS gydnabod y gefnogaeth, y cyngor a'r cydweithrediad a gafodd gan ei bartneriaid, o dan arweiniad Ysgol Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Cymru Bangor yn ystod y prosiect, nid yn unig o Ogledd Cymru ond hefyd gan ei bartneriaid trawswladol yn arbennig o'r Weriniaeth Tsiec.

5. GWEITHGAREDDAU ERAILL

Mae'r adran hon yn rhoi amlinelliad cryno o rai o'r gweithgareddau eraill sydd ar y gweill ym mhrosiect GWLAD ac a fydd yn cael eu disgrifio'n llawn yn yr adroddiad terfynol.

- Cyrsiau ar gyfer mewnfudwyr i ardaloedd Cymraeg
- Defnyddio 'podlediadau'
- Ymchwil i bontio'r bwlch rhwng addysg alwedigaethol ac addysg uwch

a) CYRSIAU AR GYFER MEWNFUDWYR I ARDALOEDD CYMRAEG

Amcan gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar brosiect GWLAD yw i gynnig addysg er mwyn cynorthwyo bobl i gael gwaith. Mae bod yn rhugl yn y Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig, yn ofynol ar gyfer llawer o swyddi yn y sector gyhoeddus ac yn fwyfwy yn y sector breifat. Cyrhaeddir llawer o fewnfudwyr i fyw yng Nghymru heb unrhyw syniad o'r ffeithiau hyn ac anelir y prosiect i ymateb i'r mater.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn datblygu dau brosiect fel rhan o gynllun Gwlad. Y cyntaf oedd edrych ar brif ganfyddiadau cynllun cymhathu mewnfudwyr Llŷn gan ystyried beth oedd y dulliau fwyaf effeithiol o gymhathu newydd ddyfodiaid fel aelodau llawn o'u cymdeithas newydd dwyieithog. Yn rhan o'r prosiect cynhaliwyd tri grŵp ffocws I asesu pa elfennau o'r cynllun fu'n llwyddiannus a ystyried beth y gellir drosglwyddo fel ymarfer da i'r gymuned leol. Roedd y grŵp ffocws cyntaf yn cynnwys Cymry cynhenid lleol oedd unai yn gweithio yn rhagweithiol er mwyn intigreiddio newydd ddyfodiaid neu yn cael eu cyflogi fel tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion. Roedd yr ail grŵp ffocws yn cynnwys pobl oedd wedi symud i'r ardal o fewn oes y cynllun cymhathu, ar trydydd grŵp ffocws yn aelodau o'r gymuned leol oedd wedi dysgu Cymraeg yn rhugl.

Wrth gynnal y grwpiau ffocws hyn cafwyd gwybodaeth gwerthfawr ynglŷn a'r dulliau gorau i groesawu newydd ddyfodiaid a hefyd canllawiau defnyddiol i newydd ddyfodiad sut i intigreiddio'n llawn o fewn eu cymunedau newydd. Roedd y trydydd grŵp ffocws yn rhoi argymhellion gwerthfawr i ddysgwyr ynglŷn a'r dulliau gorau i ddysgu Cymraeg yn ffurfiol a phrosesau anffurfiol i ddysgu Cymraeg.

Yn dilyn y gwaith ymchwil hwn bydd canllawiau ymarfer da yn cael eu cynhyrchu ar gyfer:

- Cymry Cymraeg ar ddulliau defnyddiol o groesawu newydd ddyfodiaid a chefnogi dysgwyr
- Newydd ddyfodiaid er mwyn iddynt intigreiddio yn llawn i'r gymuned leol
- Dysgwyr y dulliau gorau i ddysgu Cymraeg yn anffurfiol o fewn y gymuned

Mae'r ail brosiect hefyd yn ymwneud â chymhathu mewnfudwyr. Mae'r prosiect hwn yn darparu gweithdai ar gyfer newydd ddyfodiaid. Mae'r gweithdai hyn yn cynnwys sesiynnau ymarferol yn y meysydd canlynol:

- Cyflwyniad i'r ardal newydd
- Hanes Cymru a hanes lleol
- Y Gymraeg heddiw
- Diwylliant Cymru
- Sesiwn blasu iaith

Pwrpas y gweithdai hyn yw i roi sylfaen dda i newydd ddyfodiaid i ddysgu am eu hardal newydd ac i ystyried o ddifri y manteision a geir wrth ddysgu Cymraeg er mwyn bod yn aelodau llawn o'u cymuned newydd.

b) DEFNYDDIO 'PODLEDIADAU'

Mae myfyrwyr nodweddiadol yr Ysgol Dysgu Gydol Oes yn oedolion aeddfed sy'n byw yn bennaf mewn ardaloedd gwledig yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Maent yn astudio yn rhan amser mewn dosbarthiadau nos ym Mangor ac yn annibynnol yn eu cartrefi. Am nifer o flynyddoedd, mae israddedigion ar gwrs gradd Llenyddiaeth ac Ysgrifennu Creadigol yr Ysgol wedi cael cynnig gwylio fideo o'r darlithoedd sy'n cymryd lle yn ystod y dydd ar gyfer myfyrwyr y brif ffrwd ar y radd Saesneg. Mae hyn wedi bod yn werthfawr iawn o ran creu cysylltiad rhyngddynt ag arbenigwyr rhyngwladol ar ystod o bynciau llenyddol, a phob un ohonynt yn fodiwlau craidd ar y cwrs gradd.

Yr oedd cyfyngiadau ar lwyddiant y dull hwn. Gan nad oedd y myfyrwyr yn byw'n agos at ei gilydd, yr oedd yn anodd iddynt rannu'r adnoddau a mynd â hwy adref. Mewn llawer o achosion yr oedd ansawdd y

recordiadau yn eithaf gwael ac yr oedd myfyrwyr oedd â nam ar y clyw neu nam gweledol yn teimlo eu bod o dan anfantais. Yn aml roedd ffurflenni adborth y myfyrwyr yn cynnwys cwynion am y fideos hyn ac mae'r mater wedi cael ei godi bob blwyddyn mewn trafodaethau ar ddatblygu ansawdd.

Mae'r prosiect GWLAD wedi golygu y gellid ail-recordio'r holl ddarlithoedd a'u gosod fel podlediadau ar Blackboard, rhith amgylchedd dysgu'r brifysgol. Tynnwyd llun unrhyw ddeunyddiau gweledol a ddefnyddiwyd yn y ddarlith a'u hychwanegu at y safle. Mae'r darlithoedd hefyd ar gael ar CD os oes unrhyw fyfyriwr yn cael anhawster i gael mynediad ar-lein. Yr ydym yn awr yn gallu darparu profiad dysgu hyblyg i'n myfyrwyr lle mae ansawdd yr adnoddau wedi gwella'n sylweddol. Mae'r sŵn yn gliriach, a gall myfyrwyr wrando yn eu cartrefi ar eu cyflymder eu hunain fel bod cefnogaeth dda i'w dysgu unigol. Oherwydd bod y recordiadau newydd a gwerthfawr hyn ar gael ar y safle, bydd y myfyrwyr yn defnyddio mwy ar y gefnogaeth e-ddysgu a ddarperir gan diwtoriaid, ac ymhen amser gall hyn ganiatáu i ni ddatblygu mwy o ddulliau dysgu cyfunol.

Er eu bod yn byw mewn ardaloedd gwledig neu gymharol wledig bydd y myfyrwyr yn awr yn gallu manteisio ar y dull arloesol hwn o gyflwyno. Yn union fel y bydd myfyrwyr llawn amser y brif ffrwd yn cyfarfod ac yn ymgynnull pan fyddant yn mynd i ddarlithoedd, y mae'r rhith ddarlithoedd newydd hyn yn dechrau annog myfyrwyr i ymgynnull mewn rhith amgylchedd sy'n gallu goresgyn y teimlad ynysig o astudio adref mewn ardaloedd anghysbell.

c) YMCHWIL I GAU'R BWLCH RHWNG ADDYSG ALWEDIGAETHOL AC ADDYSG UWCH

Nod yr adroddiad hwn yw archwilio'r rhwystrau sydd ar ffordd dysgwyr seiliedig ar waith sydd wedi ennill cymwysterau galwedigaethol ac sydd eisiau eu defnyddio i groesi'r bont i Addysg Uwch. Mae'r ymchwil yn darparu gwybodaeth ar gyfer ymrwymiad GWLAD i archwilio arloesi mewn dysgu gydol oes.

Cyflwyniad

Mae dysgwyr seiliedig ar waith yn grŵp pwysig a chynyddol o ddysgwyr posibl addysg uwch. Mae llwybrau dilyniant seiliedig ar waith yn agor drysau i ehangu cyfranogiad mewn Addysg Uwch a chyrraedd dysgwyr

llai traddodiadol i'r sector. Mae hefyd yn creu ffyrdd o gael cyflogwyr i gyfranogi mewn addysg uwch gan alluogi addysg uwch i ymestyn i'r farchnad enfawr bosibl o ddatblygu'r gweithlu.

Mae sicrhau llwybrau dilyniant mwy eang i mewn i addysg uwch yn uchel ar yr agenda gwleidyddol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Adran Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi buddsoddi £1.75 miliwn mewn addysg a hyfforddiant ôl 16 yng Nghymru ac wedi cefnogi 57,000 o oedolion oedran gwaith mewn dysgu seiliedig ar waith. (Asesiad Dysgu a Sgiliau 2006).

Mae tystiolaeth gref bod y llwybr galwedigaethol i addysg uwch yn achosi mwy o rwystrau na'r llwybr traddodiadol lefel A neu lwybr Mynediad. Nid yw'r un pwysigrwydd wedi cael ei roi i lwybrau galwedigaethol a llwybrau seiliedig ar waith i addysg uwch. Mae llawer llai o bobl gyda chymwysterau NVQ 3 yn mynd ymlaen i addysg uwch na phobl gyda chymwysterau "traddodiadol". Mae llawer o bobl ifanc yn dewis cymwysterau academaidd ffurfiol o'r fath, ac y mae cymeradwyaeth ysgolion a rhieni i'r llwybr hwnnw yn dyfnhau'r rhigolau. Mae'r cwestiwn hwn o gyfranogiad yn mynd yn fater dadleuol gan fod myfyrwyr ar y llwybr galwedigaethol yn fwy tebygol o fod o gefndir lle nad oes cymaint o draddodiad o addysg uwch; maent yn tueddu i fod yn h_n ac yn chwilio am gyrsiau rhan amser.

Mae'r prif rwystrau i ddysgwyr seiliedig ar waith fynd ymlaen at addysg uwch yn ymwneud â materion ariannol, materion o ddulliau dysgu a diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng pob sector, hynny yw nid yw tiwtoriaid mynediad addysg uwch yn deall NVQs ac nid yw aseswyr NVQ yn deall aseswyr addysg uwch.

Ymchwil

Gwnaethpwyd ymchwil ansoddol ym Mhrifysgol Cymru Bangor yn bennaf, ac yn bennaf yn uned darpariaeth hyfforddi'r Ysgol Dysgu Gydol Oes. Roedd y ffocws ar ddau lwybr galwedigaethol seiliedig ar waith sy'n gallu arwain at addysg uwch, sef Gofal (gyda dilyniant posibl i Nyrsio) a Busnes a Gweinyddiaeth (Busnes). Defnyddiwyd holiaduron, grwpiau ffocws a chyfweliadau strwythuredig er mwyn casglu gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr Addysg a Hyfforddiant ac aseswyr NVQ, tiwtoriaid mynediad addysg uwch, dysgwyr seiliedig ar waith, staff mewn ystod o wahanol sefydliadau academaidd ac asiantaethau megis y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Roedd yn anodd dod o hyd i ddata meintiol: nid yw HEFCW yn cadw cofnodion ar ddilyniant o ddysgu seiliedig ar waith i addysg uwch ac nid oes unrhyw ddata clir yng nghofnodion myfyrwyr Prifysgol Cymru Bangor. Yn ôl y staff mynediad "dim ond dyrnaid" o fyfyrwyr sy'n cael mynediad gyda chymwysterau galwedigaethol yn unig: yn arferol mae'n rhaid i ymgeiswyr aeddfed sydd mewn gwaith ddilyn cwrs Mynediad.

Rhwystrau i ddilyniant

Mae'r prif rwystrau a nodwyd yn y broses ymchwil yn cefnogi casgliadau ymchwil blaenorol i ehangu cyfranogiad.

- Canfyddiadau o addysg uwch ac agweddau tuag ato: yn gyffredinol mae dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni seiliedig ar waith yn ystyried addysg uwch fel rhywbeth sydd ymhell o'u cyrraedd a thu hwnt i'w gallu. Roedd un Cynghorydd Addysg a Hyfforddiant yn teimlo bod gwahanol agweddau dysgwyr yn dibynnu ar eu lefel o hyder ac roedd un arall yn ystyried bod dysgwyr yn ystyried addysg uwch fel "rhywbeth tu hwnt i'w cyrraedd – yn rhy ymenyddol yn hytrach nag yn ymarferol – ac yn codi ofn."
- Rhwystrau ariannol: roedd yn amlwg nad oedd dysgwyr a rhai aseswyr yn ymwybodol o gostau addysg uwch nac o unrhyw gymorth ariannol oedd ar gael. Ond yr oeddent o'r farn na ellid mo'i fforddio. Roedd asesydd o'r farn y byddai dilyn cyrsiau addysg uwch yn rhan amser am resymau ariannol yn atal myfyrwyr rhag cyflawni eu potensial ac roedd tiwtor academaidd hefyd o'r farn y gallai ystyriaethau ariannol fod yn "rhwystr arbennig o uchel" i'r grŵp hwn o fyfyrwyr.
- Dulliau dysgu: roedd patrwm clir yn ymddangos, a oedd yn awgrymu bod y llam "o'r gweithle i'r dosbarth" yn rhwystr gwirioneddol iawn i bobl oedd yn dymuno symud ymlaen. Mae tystiolaeth nad yw cefnogaeth ac anogaeth gan gyflogwyr yn gwneud llawer i berswadio ymgeiswyr posibl.
- Ymrwymiadau: diffyg amser, ymrwymiadau personol ac ymrwymiadau gwaith oedd yn cael eu crybwyll amlaf fel rhwystrau i ddilyniant, yn ystod yr ymchwil. Mae gweithio shifftiau yn rhwystr arall. Fel y dywedodd un asesydd: "yn aml mae dysgwyr yn dechrau gweithio yn y sector oherwydd bod modd ffitio'r oriau o amgylch ymrwymiadau eraill ... mae llawer yn teimlo mai breuddwyd yw symud ymlaen i addysg uwch a bod y rhwystrau yn rhy fawr iddynt eu gorchfygu."

- Diffyg dealltwriaeth: mae tystiolaeth fod diffyg gwybodaeth sylweddol ymhlith dysgwyr ac academyddion. Yn aml nid yw myfyrwyr yn gwybod am y llwybrau sydd ar gael ac mae'r academyddion yn gallu bod yn anghyfarwydd â lefelau cymwysterau anacademaidd. "Rwyf yn aml yn gofyn am gyngor oddi wrth staff mynediad eraill ynglŷn â gwerthoedd cyfatebol NVQ" meddai un.
- Cefnogaeth Cyflogwyr: Mae ymchwil yn awgrymu bod cyflogwyr a staff y brifysgol ei hun yn cefnogi ac yn annog dysgwyr seiliedig ar waith i symud ymlaen i addysg uwch. Gwelwyd fod gan gyflogwyr agweddau cyffredin. Yn aml roeddynt yn anfoddog caniatáu amser i staff fynychu'r brifysgol. Roedd llawer o gyflogwyr yn teimlo dan fygythiad, gan ofni y byddai staff yn eu gadael unwaith eu bod wedi cychwyn ar gwrs addysg uwch.
- Cefnogaeth Academaidd: Daeth yn glir bod staff academaidd yn gweld bod angen cynhaliaeth ar fyfyrwyr llai traddodiadol. Er enghraifft mae staff mynediad yn yr Ysgol Nyrsio yn gweld bod dysgwyr galwedigaethol yn aml eisiau cynhaliaeth unigol i ysgrifennu aseiniadau a gyda'u sgiliau astudio ac y maent yn ei chael hi'n anodd deall theori a chysyniadau haniaethol.

Mae canfyddiadau eraill yn nodi'r materion canlynol:

- Mae dysgu seiliedig ar waith yn rhoi mewnwelediad i ddysgu ac yn gallu rhoi hyder i'r dysgwr o ran ennill cymwysterau.
- Mae dysgwyr seiliedig ar waith yn datblygu ymdeimlad o ddisgyblaeth. Maent yn gyfarwydd â chyflawni targedau ac yn aml yn rhagweithiol yn eu hymchwil.

Gwneud pontio'n haws

Datblygu sgiliau astudio yw'r allwedd i hyn. Mae'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn cyflwyno modiwlau 'Dysgu sut i Ddysgu' a 'Hunaniaethau' fel rhan o'u cyrsiau gradd.

Y Llwybrau dilyniant sydd ar gael

Mae llwybrau dilyniant mewn addysg uwch yn bodoli yn yr Ysgol Dysgu Gydol Oes trwy Raddau Sylfaen mewn Rheoli Gofal ac Astudiaethau Plentyndod Cynnar a Chefnogi Dysgu. Mae'r Ysgol Nyrsio hefyd yn cynnig graddau. Mae llwybrau dilyniant Busnes a Gweinyddiaeth yn bodoli o fewn yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Cymru Bangor. Mae'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn cynnig rhaglenni gradd hyblyg rhan amser eraill.

Casgliad

Mae'r symudiad o astudiaethau galwedigaethol i astudiaethau academaidd yn un sylweddol ac mae'n rhaid delio'n ofalus gyda'r pontio. Mae'n ymddangos bod marchnad newydd o ymgeiswyr posibl ar gyfer addysg uwch a allai bontio'n llwyddiannus o gael y gefnogaeth, yr arweiniad a'r anogaeth briodol gan gyflogwyr, aseswyr a staff.

ARGYMHELLION

1. Marchnata graddau sylfaen a graddau rhan amser yn gryf ymhlith dysgwyr galwedigaethol sy'n nesáu at gwblhau eu cyrsiau presennol.
2. Gellid datblygu'r modiwl Camu i mewn i Addysg Uwch a sefydlwyd gan yr Ysgol Dysgu Gydol Oes yn benodol ar gyfer dysgwyr galwedigaethol. Gellid ei darparu yn y gweithle.
3. Hybu'r modiwlau Dysgu Sut i Ddysgu a Hunaniaethau ymhlith dysgwyr galwedigaethol a allai fod yn brin o sgiliau astudio.
4. Marchnata ar y cyd rhwng yr Ysgol Fusnes a'r Ysgol Nyrsio.
5. Cynnal sesiynau astudio yn y gweithle a dyddiau hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr Addysg a Hyfforddiant ynglŷn â llwybrau galwedigaethol i addysg uwch.
6. Darparu pecynnau gwybodaeth i gael eu dosbarthu gan Gynghorwyr Addysg a Hyfforddiant.
7. Cynnal seminarau adeiladu hyder yn seiliedig ar wybodaeth.
8. Marchnata'r cyrsiau ymhlith cyflogwyr.
9. Codi proffil dysgu seiliedig ar waith fel llwybr arall posibl i addysg uwch.
10. Cael sefydliadau addysg uwch i gynnal cyrsiau rhagflas a sesiynau samplo.
11. Ymgysylltu â chyflogwyr: er enghraifft "Blas ar addysg uwch er mwyn llwyddiant yn y busnes" gweithdy sy'n cael ei gyflwyno yn y gweithle, ynghyd â staff academaidd.
12. Datblygu cyrsiau sy'n berthnasol i swydd unigol; graddau wedi eu teilwrio'n arbennig ac sy'n berthnasol i ddiwydiant.
13. Datblygu sgiliau llythrennedd trwy gyflwyno traethodau yn hytrach na thystiolaeth tystion; cyflwyno'r defnydd o ymarfer seiliedig ar dystiolaeth a llenyddiaeth briodol.

14. Defnyddio Blackboard fel fforwm lle gall dysgwyr galwedigaethol rannu profiadau dysgwyr addysg uwch.
15. Cyflwyno addysg uwch yn y gweithle: dysgu ar lein a chyrsiau rhagflas achrededig.
16. Y dewis o fodiwl Dysgu sut i Ddysgu am ddim pan gwblheir y fframwaith llawn.
17. Adran benodol ar ddysgu seiliedig ar waith fel dewis ar gyfer mynediad i addysg uwch ym mhrosbectws PCB.
18. Datblygu cyrsiau rhan amser sy'n gysylltiedig â gwaith yn yr Ysgol Dysgu Gydol Oes.
19. Darparu mentoriaid yn y gweithle.

6. GWAITH TRAWSWLADOL

Mae GWLAD yn rhan o bartneriaeth trawswladol REAL – READY FOR EUROPEAN ADULT LEARNING, sydd â'r partneriaid eraill canlynol:

CFA LA NOUE (Ffrainc)
DECLIC (Gwlad Belg)
Y Bont i Addysg (Y Weriniaeth Tsiec)

Dewiswyd y partneriaid hyn oherwydd eu bod yn rhannu diddordeb mewn addysg neu hyfforddiant neu fod ganddynt economi lleol tebyg; ond yn fwy penodol oherwydd eu dulliau arloesol o sicrhau mynediad i ddysgu a hyfforddiant. Mae gan bob partner ei ddiddordebau penodol ei hun; mae gan CFA La Noue a Phrifysgol Cymru Bangor ddiddordeb mewn Achredu Dysgu Drwy Brofiadau Blaenorol (AP(E)L), ac mae gan CFA la Noue, PCB a Pont i Addysg ddiddordeb mewn cymhelliant grwpiau targed, ac mae diddordeb DECLIC mewn methodolegau e-ddysgu.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod yn ystod y prosiect, un ym mhob un o wledydd y partneriaid. Cynhaliwyd y gynhadledd drawswladol gyntaf, yn gynnar yn ystod oes y prosiect, ym Mangor ym mis Tachwedd 2005. Roedd partneriaid o Ffrainc ac o'r Weriniaeth Tsiec yn bresennol yn ogystal â'n partneriaid cartref. Amlinellodd ein partneriaid prif weithgareddau eu cyrff a chyflwynwyd y syniadau y bwriadent eu cyflawni fel rhan o GWLAD. Roedd y gynhadledd yn cynnwys dau weithdy, un ar gymhelliant a'r llall ar Achredu Dysgu Drwy Brofiadau Blaenorol (APEL). Penderfynodd y ddau grŵp weithdy gynhyrchu astudiaethau cymharol a chyflawnwyd y gwaith cychwynnol. Cynhaliwyd yr ail gynhadledd drawswladol yn Liege, yng Ngwlad Belg, ym mis Mawrth 2006, gyda'r partneriaid o'r pedair gwlad yn ogystal â phartneriaid DECLIC. Roedd hyn yn cynnwys gweithdy ar ddatblygu cronfa ddata e-ddysgu i diwtoriaid, a rhannu arferion da a phrofiadau (da a drwg) ynglŷn â chynnal cyrsiau e-ddysgu. Cynhaliwyd y drydedd gynhadledd drawswladol yn Dijon, yn Ffrainc, ym mis Rhagfyr 2006, ac fe'i mynychwyd gan y pedwar partner. Parhaodd y gweithdai ar gymhelliant ac APEL gyda'u gwaith ar astudiaethau cymharol, a chynhaliwyd gweithdy ar e-gymunedau o dan arweiniad DECLIC. Gwnaethpwyd cyflwyniadau i bartneriaid a gwesteion CFA la Noue yngl_n ag agweddau ar waith pob grŵp trawswladol o'r tu allan. Roedd cyflwyniad GWLAD ar "Weithio gyda Gwirfoddolwyr". Cynhaliwyd y

gynhadledd drawswladol olaf yn Sedmihorky, yn y Weriniaeth Tsiec, ar ddechrau Mehefin, 2007. Roedd y pedwar partner yn bresennol a lansiwyd yr astudiaethau cymharol:

Achredu Dysgu Drwy Brofiadau Blaenorol (AP(E)L) yng Nghymru a Ffrainc

Cymell a chadw grwpiau targed cyn ac yn ystod hyfforddi

Cyfnewidiwyd staff fel rhan o'r gweithgarwch trawswladol. Ymwelodd chwech o bobl o'r bartneriaeth Tsiec â gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2006. Roedd gwaith paratoi wedi cael ei wneud er mwyn canfod beth oedd eu diddordebau penodol a threfnwyd nifer o ymweliadau i weld gweithgareddau GWLAD a chyfarfod gyda phartneriaid domestig GWLAD yn ogystal â sefydliadau eraill o ddiddordeb. Roedd un o'r ymweliadau hyn yn cynnwys y ganolfan cerbydau modur yng Ngholeg Rhyl, sy'n rhan o Goleg Llandrillo. Gan fod hyn o ddiddordeb penodol i'n partneriaid o'r Weriniaeth Tsiec, daeth aelod o staff Coleg Llandrillo gyda ni wrth i ninnau ymweld â'r Weriniaeth Tsiec ym mis Hydref 2006. Ymwelwyd â sefydliadau o ddiddordeb, gwelwyd prosiectau ar waith a chyfarfod â chynrychiolwyr gwleidyddol lleol a rhanbarthol.

Yn ystod yr holl weithgareddau yr ydym wedi cael y cyfle i rannu profiadau cyffredin ac arferion da. Y mae'n dealltwriaeth o wahanol agweddau ar ddysgu a hyfforddi mewn gwahanol wledydd wedi cynyddu, ac mae cysylltiadau cryf wedi cael eu creu gyda phartneriaid, yn arbennig o Weriniaeth Tsiec, lle mae gan yr economi lleol a gweithgareddau dysgu cymunedol fwy yn gyffredin gyda ninnau. Mae hynny yn golygu bod posibiliadau ar gyfer mwy o gydweithio ar ôl i GWLAD ei hun ddod i ben.

7. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION INTERIM

Adroddiad interim yw hwn a bydd unrhyw gasgliadau y dawn iddynt ac unrhyw argymhellion a wneir yn rhai amodol y gellir eu haddasu dros y misoedd nesaf.

Daethpwyd i nifer o gasgliadau a gwnaed nifer o argymhellion yn adrannau unigol yr adroddiad hwn; ac mae'r adran sy'n dilyn yn crynhoi rhai o'r rhain.

Rhwystrau i Ddysgu mewn Ardaloedd Gwledig

Mae dysgwyr mewn ardaloedd gwledig yn wynebu llawer o'r un rhwystrau a dysgwyr mewn ardaloedd mwy poblog; mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau ariannol megis ffioedd y dysgu a chost defnyddiau'r cwrs; rhwystrau seicolegol megis diffyg hunan hyder a gorfod gorchfygu profiadau blaenorol, negyddol o addysg; a rhwystrau mwy ymarferol megis dod i ddeall strwythurau a systemau darparwyr addysg. Ond mae rhwystrau ychwanegol i bobl sy'n dysgu mewn ardaloedd gwledig. Y prif rwystrau a ganfuwyd gennym oedd trafnidiaeth, gofal plant, diffyg gwybodaeth a materion yn ymwneud â chyrsiau o safbwynt, er enghraifft, dyblygu a diffyg llwybrau dilyniant. Roedd cyfran uchel o ddysgwyr a phobl y buom yn siarad â hwy, heb drafnidiaeth eu hunain ac roedd hynny'n ei gwneud hi'n amhosibl i'r rhan fwyaf ohonynt fynd ar gyrsiau tu allan i'w tref neu bentref eu hunain. Roedd gofal plant hefyd yn broblem i ddysgwyr oedd yn rhieni i blant ifanc. Lle yr oedd gofal plant ar gael yr oedd, yn aml, yn Saesneg yn unig ac felly'n annerbyniol i lawer o rieni oedd yn siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o bobl mewn ardaloedd gwledig yn dibynnu ar ofal plant anffurfiol gan ddefnyddio eu rhwydweithiau eu hunain o deulu a chyfeillion y gallant ymddiried ynddynt. Nid oedd yn bosibl i'r prosiect hwn ad-dalu'r costau hynny gan nad oedd y gofal yn cael ei ddarparu gan ofalwyr plant cofrestredig. Daeth yn glir yn ystod cyfnod yr ymchwil bod llawer o bobl yn ei chael yn anodd cael gwybodaeth. Roedd hyn yn wir ynglŷn ag ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau – o amserlenni bws i'r cyrsiau sydd ar gael a hawliau lles. Mae angen canolfannau gwybodaeth ym mhob cymuned mewn lleoliadau hygyrch a difygythiad. Mae dyblygu cyrsiau yn ymddangos yn lled gyffredin, gyda gwahanol sefydliadau yn darparu'r un fath o gyrsiau yn yr un lleoliad. Roedd pobl yn cwyno bod darparwyr yn cynnig yr un cyrsiau o hyd ac mae'r unig ffordd o wneud cynnydd oedd mynychu coleg lleol yn hytrach na bod yr addysg ar gael yn y gymuned.

Ein hargymhellion yma yw:

- Bod angen i gyfleoedd dysgu gael eu darparu mewn lleoliadau addas ar gyfer dysgwyr – ar adegau mae hynny'n golygu rhedeg cyrsiau cymharol fychan mewn pentrefi.
- Mae gofal plant yn rhwystr sylweddol a dylid chwilio am ffyrdd o gynyddu nifer y gofalwyr plant cofrestredig sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd gwledig, ac o gyllido'r math o ofal plant anffurfiol sydd orau gan lawer o rieni.
- Mae angen gwybodaeth sydd ar gael yn hwylus yn ein cymunedau. Awgrymodd un gweithiwr Cymunedau yn Gyntaf y dylai Canolfannau Gwybodaeth Twristiaeth fod yn ganolfan wybodaeth gymunedol hefyd. Awgrymodd gweithiwr cymunedol arall ddefnyddio canolfannau iechyd.
- Mae angen i golegau weithio gyda'i gilydd i ddarparu canolfannau dysgu gwledig.

Ymgysylltu â Dysgwyr Newydd

Roedd y rhan fwyaf o becynnau gwaith GWLAD yn ceisio ymgysylltu â dysgwyr newydd. Roedd rhai o'r ymgeisiau hyn yn fwy llwyddiannus nag eraill. Yn gyffredinol dyma nodweddion y rhai mwyaf llwyddiannus:

- Pobl leol (gweithgar yn y gymuned) oedd eisoes yn hysbys yn y gymuned oedd fwyaf effeithiol i ddod â grwpiau newydd o ddysgwyr at ei gilydd. Roedd hyd yn oed marchnata/dosbarthu taflenni a gosod posteri yn helaeth yn llawer llai effeithiol na hyn.
- Yn aml, yr oedd gweithio gyda grwpiau oedd yn bodoli'n barod yn ffordd gadarnhaol o weithio. Yn aml roedd y grwpiau hyn yn tyfu ac yn denu mwy o bobl unwaith bod gweithgareddau ar droed.
- Mae'n bwysig grymuso grwpiau fel eu bod yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain am feysydd dysgu. Er ei bod yn werth nodi pa fath o ddarpariaeth y gellid ei wneud, roedd grwpiau yn fwy tebygol o gymryd rhan pan oeddent hwy eu hunain yn dewis y gweithgareddau. Mae'n bwysig i bobl allu mwynhau dysgu.
- Mae'n bwysig defnyddio y math iawn o bobl fel hyfforddwyr neu diwtoriaid. Mae'n rhaid iddynt fod â dealltwriaeth dda o'r grŵp targed yn ogystal â'r sgiliau a'r profiad o weithio gydag oedolion. Weithiau gall aelodau o'r grwpiau eu hunain ymgymryd â'r rôl hon.

- Y mae'n bwysig bod yn hyblyg wrth ddarparu dysgu. Mae rhai o'r dysgwyr newydd yn ei chael yn anodd mynychu sesiynau dysgu ac nid oes ganddynt sgiliau rheoli amser. Bydd yn rhaid i diwtoriaid a hyfforddwyr fod yn amyneddgar a bod yn barod i ailadrodd ac aildrefnu sesiynau lle bo angen.

Dulliau o Ddysgu

Yn rhai o'n pecynnau gwaith roeddem yn ymchwilio ac yn treialu gwahanol ddulliau o ddysgu, gan edrych ar ddysgu o bell, dysgu cyfunol, defnyddio rhith amgylcheddau dysgu ac yn y blaen. Bydd y dulliau hyn yn aml yn cael eu rhoi ger bron fel rhai sy'n arbennig o addas i ardaloedd gwledig. Mae ein casgliadau a'n hargymhellion yn y maes hwn fel a ganlyn:

- Dysgu o bell yw'r ffordd orau sydd gan rai pobl o ddysgu, am resymau ymarferol ac am resymau mwy seicolegol. Ond mae llawer o bobl yn gwerthfawrogi rhywfaint o gysylltiad wyneb yn wyneb gyda thiwtoriaid a myfyrwyr eraill hyd yn oed pan maent yn dewis cwrs dysgu 'o bell' neu ddysgu 'cyfunol'.
- Mae technolegau dysgu megis 'podlediadau' a 'Blackboard' (sy'n rhith amgylchedd dysgu) yn amlach na pheidio yn ategiad gwerthfawr i fathau eraill o ddarparu dysgu yn hytrach nac fel dull i ddisodli dysgu wyneb yn wyneb.

Gweithio mewn Partneriaeth

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn un o'r prif ddulliau a ddefnyddiwyd gan GWLAD. Roedd hyn yn cynnwys partneriaeth ffurfiol y prosiect ei hun a llawer math arall o bartneriaeth yn ystod y prosiect. Dyma rai o'n sylwadau ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth:

- Mae llawer o'r gweithgareddau fyddai heb ddigwydd heblaw bod partneriaeth. Heb amheuaeth dyma oedd yr elfen fwyaf hanfodol yn ein prosiect.
- Mae partneriaethau yn agor ystod eang o gysylltiadau ac arbenigeddau i ni.
- Mae partneriaeth lwyddiannus yn mynnu amser a llinellau cyfathrebu da.
- Mae prosiect fel GWLAD sy'n para dwy neu dair blynedd yn caniatáu digon o amser i ddatblygu cysylltiadau cryf ac ymddiriedaeth rhwng partneriaid a fydd yn caniatáu creu

cysylltiadau a all bara heibio oes y prosiect ei hun.the project.

- Nid oedd pob un o'r partneriaid yn gallu ymrwymo am oes gyfan y bartneriaeth. Roedd newidiadau mewn strwythurau neu bersonél y partneriaid yn cyfyngu ar allu rhai o'r partneriaid i barhau am oes gyfan y prosiect.

Ymateb i'r annisgwyl

Dros gyfnod y prosiect roeddem yn gallu ymateb i rai datblygiadau newydd. Y mwyaf amlwg o'r rhain oedd y gwaith a wnaethom gyda'r gweithwyr mudol diweddar o Ddwyrain Ewrop. Y mae maint y grwpiau hyn a'r ymwybyddiaeth o'u hanghenion wedi tyfu'n sylweddol dros gyfnod y prosiect ac mae cyllid EQUAL wedi'n galluogi ni i ymateb i rai o'r rhain. Roedd y newidiadau eraill a wnaethpwyd yn ystod y prosiect yn cynnwys newid natur y gweithgareddau a gynlluniwyd, wrth i anghenion ein buddiolwyr ddod yn gliriach a thrwy symud at grwpiau gwahanol o gleientiaid pan nad oedd rhai o'r grwpiau a fwriadwyd ar gael erbyn hynny.

Casgliad

Trwy gydol y prosiect yr ydym wedi canolbwyntio ar egwyddorion EQUAL o arloesi, grymuso a chyfle cyfartal ac mae'r egwyddorion hynny wedi gwreiddio ym mhob menter yr ydym ni a'n partneriaid wedi ei chychwyn. Treialwyd gwahanol agweddau ar ddarparu dysgu mewn ffyrdd arloesol a grymusol. Mae dysgu wedi bod yn elfen allweddol trwy gydol y gwaith: i fuddiolwyr, i bobl oedd yn darparu dysgu ac i bawb oedd yn gysylltiedig â'r bartneriaeth ddatblygu. Yr ydym wedi dysgu llawer iawn oddi wrth ein gilydd, ac yr ydym yn parhau i wneud hynny. Y mae hyn i gyd yn waith sy'n dal i fod ar y gweill ac yr ydym yn edrych ymlaen at rannu'r gwersi hyn mor eang ag y bo modd wrth i'r prosiect ddwyn i ben ar ddiwedd y flwyddyn.